
# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 568 · **Hydref 2025** · 70c


# Cartrefi i Bobl Leol – galwad rali ‘Grym yn ein Dwylo’




Mae Cymdeithas yr Iaith yn cynnal gorymdaith a chyfarfod cyhoeddus ym Methesda ddydd Sadwrn, Tachwedd 1af er mwyn tynnu sylw at yr argyfwng tai yn Nyffryn Ogwen ac ardaloedd eraill. Bydd yr orymdaith yn cychwyn ym Mhlas Ffrancon am hanner dydd, efo'r cyfarfod yn Neuadd Ogwen am 1 o'r gloch.

Hon fydd rali ddiweddaraf y mudiad yn y gyfres ‘Nid yw Cymru ar Werth’ yn galw ar Lywodraeth Cymru i basio Deddf Eiddo a gweithredu mesurau i ddiogelu a chryfhau'r cymunedau Cymraeg.

Mae'r mudiad yn galw am Ddeddf Eiddo a fyddai'n gwneud yr hawl i bobl gael cartref yn eu cymunedau neu o fewn pellter rhesymol yn hawl cyfreithiol, a bod trigolion lleol yn cael cyfle teg i brynu tai am brisiau o fewn eu cyrraedd. Hefyd, maen nhw'n galw am ddiogelu stoc tai lleol rhag cynnydd yn nifer ail gartrefi a thai gwyliau.

Yn y rali bydd Cymdeithas yr Iaith yn protestio yn erbyn y diffyg gweithredu gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng tai. Bydd hefyd yn rhoi hwb i ymlediad sylweddol mentrau cymunedol trwy'r wlad i geisio sicrhau'r dyfodol o'r gwaelod i fyny.

Ar ran Cymdeithas yr Iaith, bydd Osian Jones yn beirniadu'r Llywodraeth am ei diffyg parodrwydd i weithredu argymhellion adroddiad terfynol y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ar ddyfodol cadarnleoedd yr iaith, ac yn galw am adolygu Polisïau Gosod Tai Cymdeithasol er mwyn sicrhau pwyslais newydd yn y sector hwn.

## Ar y Brig yn Genedlaethol

Llongyfarchwn Megan Tomos. Sychnant, Llanllechid ar ennill y gystadleuaeth ‘Cyflwyniad i Fro’ yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam eleni.

Cafwyd ganddi ddarlun o fro ei magwraeth yn Nhre'r Ddôl, Sir Dinbych, gyda sylw penodol i fferm Plas yn Ddôl, ei hen gartref. Roedd ei chyflwyniad yn cynnwys hen luniau ynghyd â map yn nodi enwau'r caeau. Yn gymysg â'r disgrifiadau o'r tirlun, cawn hanes yr ardal, ei phobl a'i hadeiladau – yn ffermydd, mân ddiwydiannau ac addoldai – a chyfraniad y gymdeithas i ddiwylliant Cymru.

Wrth ganmol y gwaith, mae beirniad y gystadleuaeth, Twm Morys, yn nodi bod yr ‘arddull atgofus yn dwyn i go' ysgrifau W.J. Gruffydd' a bod y ffordd y mae Megan yn disgrifio ei phrofiadau pan yn ifanc ar y fferm yn codi'r cyflwyniad i fod ‘yn ddarn o lenydda.'



# Llais Ogwan

## Rhif 568
## Hydref 2025

### Panel Golygyddol
Ieuan Wyn
Lowri Roberts
Neville Hughes
Dewi A Morgan
Trystan Pritchard
Rhodri Llŷr Evans
Owain Evans
Carwyn Meredydd
Rhys Llwyd
Catrin Wager
Fflur Roberts

### Swyddogion
**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

### Trefnydd hysbysebion
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

### Ysgrifennydd
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

### Trysorydd
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Ieuan Wyn**.

Y golygydd ym mis **Tachwedd** fydd **Rhodri Llŷr Evans**, 2 Rhos y Nant, Bethesda, LL57 3PP.
07713 865452
E-bost : Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 1 Tachwedd** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **nos Iau, 20 Tachwedd** yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW**: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.




## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris i £35 y flwyddyn.

**Owen G Jones**, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Clwb Cyfeillion

**Gwobrau Hydref**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (101) | Helen W. Evans, Erw Las, Bethesda. |
| £20.0 | (87) | Rhian Owen, Bro Syr Ifor, Tregarth. |
| £10.00 | (38) | Beryl W. Edwards, Sgwâr Buddug, Bethesda. |
| £5.00 | (31) | Alwenna Puw, Cefn y Bryn, Bethesda. |

## Dyddiadur y Dyffryn

### Hydref
20 Te Bach. Festri Carmel, Llanllechid. 2.30 – 4.00.
23 Dathlu'r Dirwedd Llechi. Neuadd Ogwen. 5.00 – 7.30
25 Neuadd Ogwen. Cerys Hafana.
27 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem 10.30 – 12.00.
28 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.
31 Neuadd Ogwen. Gong.

### Tachwedd
01 Bore Coffi Eisteddfod D. Ogwen. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
03 Merched y Wawr, Tregarth. Capel Shiloh am 7.30.
10 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem 10.30 – 12.00.
10 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem am 7.00yh.
11 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.
13 Y Gymdeithas. Festri Jerusalem. Adloniant gan Cai Fôn am 7.00yh.
14 Eisteddfod Gadeiriol D. Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00yh.
15 Eisteddfod Gadeiriol D. Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen am 10.00yb.
17 Te Bach. Festri Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.
18 Cyfarfod Blynyddol Llais Ogwan. Festri Jerusalem am 7.00yh.
20 Noson gasglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Top Cefnfaes am 6.45.
24 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem 10.30 – 12.00.
25 Gyrfa Chwist, Canolfan Cefnfaes am 6.45yh.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £20.00 | Catrin Williams, Rynys, Rachub. |
| £30.00 | Alan Davies, Porthaethwy, Môn. |
| £750.00 | Clwb Cyfeillion Llais Ogwan. |
| £10.00 | Doris Shaw, Bethesda. |
| £20.00 | Er cof annwyl am Norman Jones, Ty Isaf, gynt,a fuasai'n 90 oed ar 11 Tachwedd oddi wrth Jess, Sioned a Hefin. |
| £22.30 | Cyfanswm nifer o roddion amrywiol o Landygai. |

***Diolch yn fawr.***

# Llais Ogwan

***Newyddion Tachwedd i'w dderbyn erbyn 1 Tachwedd. Dyddiad cyhoeddi 20 Tachwedd.***

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru
CYMRAEG

***Cysylltwch â ni: golygydd@llaisogwan.com***

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái,
Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

### Eglwys Sant Tegai, Llandygái

**Diolchgarwch 2025**
Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu Diolchgarwch am y Cynhaeaf ar fore Sul, Hydref 12fed. Aeth casgliad o nwyddau yn yr eglwys tuag at fanciau bwyd lleol. Roedd y gynulleidfa yn brysur iawn yn addurno'r eglwys ar y dydd Sadwrn blaenorol sef Hydref 11eg.

**Cydymdeimlad**
Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Marian Matthews, mam ein cyn-ficer, y Parch. John Matthews ym Malta. Cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddi yn ei hen gynefin, Eglwys St Tegfan, Llandegfan ar ddydd Sadwrn, Medi'r 20fed o dan arweiniad y Parch. Ddr Carol Roberts o Ddolgellau. Roedd John a Sue Matthews wedi hedfan draw o Seland Newydd ac ymlaen wedyn o Ynys Malta i Gymru.

**Diwedd tymor ymwelwyr i'r Eglwys**
Mae'r eglwys ar gau i ymwelwyr tan Pasg 2026 yn dilyn tymor llwyddiannus yn y cynllun cenedlaethol 'Eglwysi Agored'. Estynnwn ein diolch i Raymond a Pauline Edwards am eu ffyddlondeb dyddiol yn agor a chau'r adeilad. Wrth gwrs, bydd yr eglwys ar agor ar gyfer ein gwasanaethau.

**Sul y Cofio Tachwedd 9fed 2025**
Yn ôl ein traddodiad blynyddol bydd cynulleidfa St Tegai yn ymuno â chynulleidfa Sts Fair (Gelli) Tregarth i gymryd rhan yng ngwasanaeth y Cofio.

**Gwasanaethau**
**Ar y Sul**
Mae gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt** – Y Parch. Ddr Gareth Lloyd yw ein Harweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Wrth gwrs, gallwch hefyd gysylltu yn lleol â'n Caplan Bro, y Parch. Sara Roberts, SaraRoberts@churchinwales.org.uk

# YSGOL LLANDYGÁI

Braf oedd croesawu pawb yn ôl yn dilyn gwyliau'r haf gyda phawb wedi mwynhau'r cyfnod hir o dywydd sych. Braf oedd croesawu criw newydd i'r Meithrin ac maent i gyd wedi ymgartrefu yn wych hefo ni yma bob bore. Buom i gyd yn dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr yng nghanol y mis gyda'r ysgol yn fôr o goch a melyn.

Ein thema y tymor hwn ydi 'Môr a Mynydd'. Rydym i gyd yn cychwyn ar ein taith o'r mynydd i lawr i'r môr yn ystod y tymor.

**Dosbarth Gwawr**
Mae Dosbarth Gwawr wedi cychwyn eu taith ddysgu trwy feddwl am bentref Llandygái a mynd ar daith o amgylch y pentref. Roedd Begw'r lâr hefyd wedi bod am dro o amgylch y pentref, a bu'r plant yn brysur yn creu stori newydd amdani. Ar hyn o bryd, mae'r plant wrthi'n edrych ar y mynyddoedd a welir o Landygái. Wrth edrych o'r buarth, dim ond rhan fach iawn o un mynydd oedd i'w weld heibio'r coed tal! Felly, rhaid oedd mynd am dro allan o'r pentref ei hun i weld y mynyddoedd. Maent rŵan yn ceisio darganfod pa fynyddoedd ydyn nhw gan yn ymchwilio i'w huchder. Mae'r plant wedi cael yr enwau bendigedig sydd ar y mynyddoedd, ond angen ymchwilio i weld pa un yn union ydi Carnedd Dafydd a Phen yr Ole Wen a'r criw. Tro Dosbarth Gwawr hefyd y tymor yma ydi cael sesiynau Ysgol Goedwig. Hyd yn hyn, maent wedi bod ar helfa lliwiau natur, creu draenogod mwd, creu llythyren gyntaf eu henwau gyda brigau a gwlân a chreu trychfil afal o'r goeden afal yn y berllan.

**Dosbarth Awel a Dosbarth Tirion**
Cychwynnodd Dosbarth Awel a Dosbarth Tirion y tymor yn casglu syniadau am yr hyn y gallent ei wneud fel rhan o'u gwaith thema gan ganolbwyntio ar yr adran gyntaf, sef mynyddoedd. Maent yn awr yn gwneud gwaith ymchwil i ateb y cwestiwn 'Beth sydd mor arbennig am Eryri?'

Daeth ymwelwyr o Siapan at Ddosbarth Tirion un pnawn yn ddiweddar, a chafwyd pnawn hwyliog iawn yn dysgu am Siapan a'i thraddodiadau. Cafwyd cyfle i beintio, ysgrifennu, gwaith origami a chwarae gemau traddodiadol o Siapan. Diolch i'r myfyrwyr o'r Brifysgol am ddod atom.

Bu Dosbarth Tirion hefyd yn treulio diwrnod yn Padlfyrddio yn Llanberis. Cafodd pawb fwynhad mawr o gydweithio i fynd ar y dŵr, a hefyd yn cefnogi ei gilydd i wneud ambell her. Diolch yn fawr i'r Urdd am drefnu 'Antur Fach - Padlfyrddio' ar eu cyfer.



Aelodau o Ddosbarth Gwawr yn chwilio am fynyddoedd o fuarth yr ysgol



Llongyfarchiadau i Harry am ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth stampiau Cadeirlan Dewi Sant fel rhan o ddathliadau Bangor 1500. Bu Dosbarth Tirion yn y Gadeirlan ddechrau'r mis fel rhan o ddathliadau'r Gadeirlan a Phrosiect Pererin. Roedd gwaith buddugol Harry i'w weld mewn amryw o lefydd yn y Gadeirlan – ar y llawr, ar y ffenestri ac ar arteffactau, ac mae copi o'r stamp hefyd rŵan yn yr ysgol.



# Chwedl a Choel yn Nyffryn Ogwen (7)

Gan **Howard Huws**

## ‘Coblynnod’ tanddaearol

Mae’n hen goel fod ysbrydion neu dylwyth teg yn byw o dan y ddaear, allan o gyrraedd goleuni’r haul a’r lleuad a’r sêr. Bod ogofâu, hafnau a hen domenni claddu’n fynedfeydd i’r deyrnas danddaearol honno, a’u bod yn lleoedd i bobl gall eu hosgoi.


Beth, felly, am gloddio mwynau, glo a llechi? Beth bynnag am beryglon amlwg chwarel lechi, yr oedd yn weithgaredd awyr-agored, gan fwyaf, felly byddai rhywun yn o ddiogel yno rhag ymyrraeth oruwchnaturiol. Roedd cloddio i berfeddion y ddaear yn wahanol: yn hwyr neu’n hwyrach, byddai gweithwyr yn sicr o ddod ar draws pethau na ellid eu hesbonio.

Yn yr Almaen credid bod ysbrydion o’r enw ‘kobolden’ yn byw ac yn bod ymhlith dynion, a bod rhai ohonynt, y “kobelen’ i’w cael mewn mwyngloddiau. Byddent yn chwarae triciau ar y gweithwyr yno, gan ddiffodd canhwyllau, cuddio offer, dwyn mwyn gwerthfawr a rhoi metel diwerth (‘kobalt’) yn ei le. Yr enw ‘kobelen’ a roddodd inni ‘coblyn’ yn Gymraeg, a ‘goblin’ i’r Sais.

O’r Oesoedd Canol ymlaen daethpwyd â mwynwyr o’r Almaen i Loegr i weithio’r cloddfeydd yno, am fod eu gwybodaeth a’u technegau nhw’n well na rhai’r Saeson. Daethant â’u cred mewn ‘kobelen’ gyda nhw, ac yng Nghernyw cymysgwyd hynny â’r hen gred frodorol mewn tylwyth teg: bodau oedd yn dal i ddwyn a chwarae castiau, ond y gellid eu darbwyllo i fod o gymorth, hefyd, trwy adael bwyd a diod iddynt, ac ymddwyn yn barchus tuag atynt.

Taerai’r mwynwyr fod y coblynnod hyn yn weithgar ofnadwy, ac y gellid eu clywed yn ceibio, yn tanio ac yn gwthio wagenni i lawr yn y dyfnderau pygddu. Roedd hynny’n arwydd da, oherwydd o ddilyn y synau hyn i rannau anghysbell y fwynglawdd, credid y gellid canfod gwythiennau da o fwyn gwerthfawr. Credid bod y coblynnod yn gwneud sŵn curo, hefyd, neu’n peri i breniau cynnal y mwynglawdd wichian a chrecian: weithiau i roi gwybod i ddynion bod gwythiennau metel gerllaw, ond droeon eraill i’w rhybuddio bod y twnnel ar fin dymchwel. ‘Nocars’ y gelwid yr ysbrydion hyn yng Nghernyw.

Wrth i’r Chwyldro Diwydiannol fagu stêm, roedd rhagor o angen mwynwyr galluog yng Nghymru. Daethant o Loegr a’r Almaen i weithio cloddfeydd plwm Ceredigion, a’u credoau i’w canlyn, oherwydd ym 1656 mae John Lewis o Lanbadarn Fawr yn



tystio bod nocars i’w gweld a’u clywed yno, lle bo gwythïen dda o fetel. Felly Lewis Morris ym 1754 hefyd; a’u bod yn ysbrydion o ewyllys da, ac wedi ei arwain at gyfoeth o fetel. Roedd pobl “sobr a gweithgar” wedi eu clywed, meddai, ac nad rhyw ddychmygion plentynnaidd mohonynt.

Pan ddechreuwyd cloddio am gopr a phlwm yn Nyffryn Ogwen o’r 1750au ymlaen, daethpwyd â gweithwyr yma o ardaloedd mwyngloddiol eraill. Wyddom ni ddim o ble’n union, ond mae rhai o’u cyfenwau (a geir yng nghofnodion bedyddio, priodi a chladdu Llanllechid a Llandygái) yn awgrymog: Keeling o Swydd Stafford neu Derby, efallai; Fraser o’r Alban neu ogledd Lloegr; a Luke o Gernyw, debyg. Ym 1802 mae William Williams, Llandygái yn cofnodi i Simon Luke y mwyngloddiwr (a gofnodir yma gyntaf ym 1778) roi gwybod iddo ei fod ef a mwynwyr eraill wedi clywed y coblynnod tanddaearol yn tyllu ac yn tanio yng nghloddfa blwm Moel Wnion; a bod hynny’n arwydd sicr bod cyfoeth aruthrol o fwyn yng nghrombil y mynydd.

Seithug fu’r gobaith hwnnw: hwyrach i Simon fethu â dangos dyledus barch at y coblynnod, ac iddynt arfer eu tueddiadau castiog arno. Eto, parhaodd y gred mewn coblynnod yn gryf iawn ymysg cloddwyr Cymru, ac y mae’r *North Wales Chronicle* yn tystio i hynny mor ddiweddar â 1875.



Moel Wnion

# YSGOL BODFEURIG

Gyda mis Medi wedi rhuthro heibio, bellach mae pawb wedi setlo'n ôl yn yr ysgol a'r criw o blant newydd ymunodd gyda ni ddechrau'r tymor wedi ymgartrefu a gwneud ffrindiau newydd. Mae wedi bod yn fis prysur gyda'r plant yn dathlu llawer o ddyddiau pwysig.

### Diwrnod Owain Glyndŵr

Roedd yr ysgol yn fôr o goch pan fu pawb yn dathlu diwrnod Owain Glyndŵr. Cafodd pawb hwyl yn dysgu am ei hanes cyn cael gorymdaith fawr o gwmpas tir yr ysgol!



### Diwrnod Hapus

Nid coch oedd yr unig liw oedd i'w weld yn yr ysgol ym mis Medi. Roedd dosbarth Idwal yn felyn i gyd wrth iddynt ddathlu diwrnod hapus. Cafodd pawb ddiwrnod gwerth chweil yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog gan orffen gyda chyfle i ddawnsio – be' well i'ch gwneud chi'n hapus!

### Diwrnod Ieithoedd Ewropeaidd

Mae dathlu diwrnod ieithoedd Ewropeaidd bellach yn draddodiad yn yr ysgol. Eleni penderfynodd dosbarth Idwal ddysgu mwy am Sbaen tra bo dosbarth Ogwen eisiau dysgu mwy am yr Eidal. Cafwyd gyfle i wisgo dillad yn lliwiau'r gwledydd yn ogystal â dysgu ychydig o'r iaith. Diwrnod hwyliog dros ben.

### Ymweliad Lee

Thema dosbarth Ogwen y tymor yma yw 'O ble daw ein bwyd?'. Fel ysbardun i'r thema daeth un o drigolion y pentref i siarad gyda ni sef Lee o LC Gourmet. Cafodd pawb brynhawn gwych yn dysgu am ei waith a'r hyn oedd wedi ei ysbrydoli. Cawsom hefyd gyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddylunio waffl newydd ar gyfer y cwmni. Bydd y dyluniad buddugol i'w weld ar fwydlen LC Gourmet yn fuan.



Lee o LC Gourmet


SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON
CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan
Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus




# Llythyr

Annwyl Ddarllenwyr,

**Gwarchod ein Henwau Lleoedd Cymraeg**



**Ochr ddwyreiniol Tryfan, efo Llwybr Gwregys yn mynd ar draws ei ganol fel gwregys, ond yr enw 'Heather Terrace Path' sydd ar y mapiau.**

Yn dilyn llwyddiant yr ymgyrch i gael yr enw 'Llyn Celanedd' yn lle 'The Spinnies' ar warchodfa natur Aberogwen, rydym yn cychwyn ymgyrch newydd.

Ar eu mapiau o'n rhan ni o Eryri, mae'r Arolwg Ordnans (yr OS), yr asiantaeth fapio, yn mynnu cynnwys enwau Saesneg ar lefydd sydd ag enwau Cymraeg hanesyddol. Dyma dri:

1. 'The Nameless Cwm' yn lle 'Cwm Cneifion' yn unig (islaw'r Glyder Fawr).
2. 'The Mushroom Garden' yn lle 'Coed Cerrig y Frân' (uwchlaw Blaen-y-nant yn Nant Ffrancon).
3. 'Heather Terrace Path' yn lle 'Llwybr Gwregys' (ar ochr ddwyreiniol Tryfan).

Mae hyn yn gwbl annerbyniol. Dylai'r Arolwg Ordnans barchu enwau lleoedd Cymraeg hanesyddol, a'n bwriad yw anfon at y sefydliad hwn efo cais iddyn nhw ddefnyddio'r enwau Cymraeg yn unig. Byddai ein cais yn gryfach pe baem yn derbyn cefnogaeth yn lleol, felly ein bwriad yw cysylltu ag unigolion, cynghorau cymuned, cymdeithasau a grwpiau yn Nyffryn Ogwen a'r ardaloedd cyffiniol yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn gywir,
**Ieuan Wyn**
**Emyr Roberts**
**Rhys Parry**


JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts ac aelodau o'r côr



Emyr Roberts a Heulwen yn Niagara gyda rhai o aelodau'r côr ar yr ymweliad â Chanada.

Mae nifer o luniau yn ymddangos yn y golofn hon y tro yma eto a diolch i rai aelodau fel Aled Williams, Gareth Williams ac Emyr Roberts am gael eu defnyddio.

**Pobl Canada wedi gwirioni efo'r côr**

Fel yr adroddwyd yn rhifyn Medi o'r *Llais* bu'r côr yn cymryd rhan yng Ngŵyl Cymry Gogledd America yn niwedd Awst a dechrau Medi. Derbyniodd Llais Ogwan negeseuon gan Gary a Debbie Roberts o Granville, Efrog Newydd a chan John a Maeve Parry, o ddinas Ottawa yn canu clodydd y côr am eu perfformiadau mewn lleoliadau nodedig yn Ottawa yn ystod yr ŵyl. "Adloniant gwych mewn lleoliad hyfryd," meddai Debbie, a soniodd John hefyd am brif gyngerdd yr ŵyl pan fwynhawyd canu corawl o'r radd uchaf ac unawdau gan Meinir Wyn Roberts o Gaernarfon.

Ar ôl perfformio yn ninas fawr Toronto ac yn Niagara o flaen y rhaeadr byd-enwog, aeth y côr ymlaen i Ottawa, prifddinas Canada, i berfformio i gynulleidfaoedd o dras Cymreig. Mae Ottawa yn ddinas nodedig sy'n cynnwys nifer o adeiladau hardd a hanesyddol. Mae aeiladau'r senedd a Chadeirlan Notre Dame ymhlith y trysorau hynny.



Aled Williams B2, yng nghrys anffurfiol y côr, a'i briod Nia wedi cyrraedd Ottawa.



Twm Bach T2 a'i frawd mawr Wil T2 yn dynwared Gene Kelly a Donald O'Connor yn y ffilm o 1952 - 'Singin' in the Rain' tra'n ymlacio ar daith y côr i Ganada.



Senedd Genedlaethol Canada yn Ottawa



Gareth Williams ac Owain Arwel, Arweinydd y Côr, yn cyflwyno potel o whisgi Aber i Megan Williams fel arwydd o ddiolch am ei holl waith yn trefnu ac yn hwyluso ymweliad y côr ag Ottawa.



Gareth Williams, y Cadeirydd, yn cyflwyno cloc llechen o waith Alun Davies, Rheolwr y Côr, i gynrychiolydd o'r Eglwys Gymraeg yn Toronto.

# Cymeriadau'r Côr

*Cymeriad y Mis y tro hwn ydy* ***Huw Derfel Jones*** *o'r Gerlan, trydanwr wedi ymddeol.*

1. **Enw?** Huw Derfel Jones
2. **Oed?** 72 ifanc
3. **Lle wyt ti'n byw?** Gerlan
4. **Lle gest ti dy fagu?** Gwaen Gwiail, Gerlan, un o dair fferm Gwaen Gwiail sydd rhwng Carnedd Dafydd a Charnedd Llywelyn uwchben pentref y Gerlan.
5. **Sut gymeriad wyt ti?** Swnllyd, blêr a caredig yn ôl Gwenno (tlawd hefyd!)
6. **Pryd wnest ti ymuno â'r côr?** Ionawr 2025
7. **Pa lais wyt ti?** Ail Denor
8. **Pam wnest ti ymuno â'r côr?** Wedi meddwl ymuno ers blynyddoedd ond heb gymryd y cam.
9. **Pa gân ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** 'Pererin Wyf' ar dôn 'House of the Rising Sun'.
10. **Beth wyt ti'n feddwl o ganu pop?** Roeddwn i'n mwynhau caneuon pop Saesneg yn y 60au a'r 70au, yn ogystal â chaneuon pop Cymraeg gan grwpiau ac artistiaid fel Tebot Piws, Meic Stevens, Bryn Fôn a Dafydd Iwan.
11. **Wyt ti wedi bod ar ymweliad efo'r côr?** Do, yn lleol hyd yma. Yn Dylan's Llandudno yn ddiweddar ac wedi mwynhau peint ar gost Emyr Cemist. Hefyd wedi mwynhau canu yn Henllys, Bangor a Betws y Coed.
12. **Beth ydy dy ddiddordebau di y tu allan i'r côr?** Rygbi Bethesda ac wedi chwarae efo nhw a'u cefnogi ers 1974.






**Y galwadau'n dal i lifo i mewn. Angen organau yn annog taith gerdded i ben yr Wyddfa.**
Efallai bod rhai'n meddwl y byddai'r côr yn gorffwyso ar ôl ymweliad blinedig â Chanada, ond doedd dim gorffwys i'w gael a bu raid i'r aelodau fynd draw i Lanberis i berfformio mewn digwyddiad yno un prynhawn yn niwedd mis Medi. Yr achlysur oedd dathlu gweithgaredd i annog a hybu cyflwyno organau'r corff i gynorthwyo cleifion sydd angen rhai iach fel arennau, iau, ysgyfaint, calonnau neu rannau o lygaid ac yn y blaen.
Yn y llun mae'r aelodau ac Owain Arwel, yr arweinydd, yn sefyll efo pobl sy'n dal lluniau o berthnasau a chyfeillion a gollwyd oherwydd nad oedd organau ar gael iddyn nhw. Roedd y cefnogwyr a'r trefnwyr wedi cerdded i ben yr Wyddfa yn ystod y dydd ac aeth y côr draw i'w cefnogi trwy ganu caneuon amrywiol. Roedd yr achlysur yn un emosiynol iawn i bawb, a gwelwyd sawl llygad llaith wrth i'r côr fwrw ati i ganu caneuon fel 'Byd o Heddwch'.

Bocsio, wedi bod yn edmygydd mawr o Muhammad Ali, yr Americanwr, a Joe Calzaghe o Went. Dwi hefyd yn hoffi pysgota yng Nghwm Pen Llafar, trafaelio a gwersylla.

13. **Pwy ydy dy hoff ganwr neu gantores?** Dwi'n hoff o Heather Jones, Don Henley o'r Eagles a Spud Von-Trapp.
14. **Wyt ti'n gallu darllen miwsig hen nodiant?** Nac ydw ond dwi'n medru codi tôn i fyny trwy'r glust.



## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,** Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB (01248 601318)
carys16@hotmail.com

**Cedol Dafydd**
Mae Cedol sy'n fab i Jane ac Einion yn aelod o gwch Tîm Prydain sydd wedi bod yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Rhwyfo'r Byd yn Shanghai, Tseina. Yn ôl pob sôn, roedd yr amgylchiadau o ran tywydd yn heriol ond daeth cwch Cedol yn ail yn eu ras rhyw eiliad neu ddau tu ôl i'r tîm buddugol o'r Eidal.
Mae Cedol yn rhwyfo mewn cwch i bedwar (Quadruple Sculls M4x) ac mae'r canlyniad yma'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol.
Pob hwyl iddynt yn y rasys i ddod a llongyfarchiadau mawr i Cedol.



**Croeso!**
Rydym fel ardal yn estyn croeso cynnes iawn i Manon ac Ifan Hywel sydd wedi ymgartrefu ym Mhentir. Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd, a bydd digon o gyfle iddynt gyfarfod eu cyd-ardalwyr yn y nifer o ddigwyddiadau a drefnir yn y pentref.

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Cydymdeimlo**

Bu farw Myra Hughes (Twigge, gynt o Fethesda) oedd yn byw yn Llanfairfechan ar Awst 30, a chydymdeimlwn gyda dwy chwaer iddi sydd yn byw yn Nhregarth, sef Mona Williams, Ffordd Tanrhiw ac Ann Griffiths, Bro Derfel, a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

**Llongyfarch**

Llongyfarchiadau lu i Esther Llugwy Parry, o Lon y Wern, Tregarth, ar ennill 10A* a 2A yn ei harholiadau TGAU eleni. Bydd Esther yn parhau yn Ysgol Tryfan ar gyfer ei hastudiaethau Lefel A.

## Cylch Meithrin Tregarth



Staff Cylch Meithrin Tregarth Medi 2025 gyda theisen dathlu 50 mlynedd y Cylch o waith Jên Temple Morris.



Courtney Aldcroft, arweinydd Cylch Meithrin Tregarth 2025 gyda Gwenda Davies, arweinydd cyntaf y Cylch yn 1975.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**

Nos Lun, Medi 8, cafwyd cychwyn ar dymor newydd sbon o'r gangen yn Nhregarth dan lywyddiaeth Carys Dafydd, Janet Davies yn ysgrifennydd a Myfanwy Harper yn drysorydd. Noson o Frethyn Cartref oedd y noson agoriadol dan ofal rhai o'r aelodau. Bu Carys Dafydd yn sôn am un o deulu enwog y crwydriaid o sipsiwn, teulu Abraham Wood, sef Howel Wood a drigai ar fferm teulu Carys yn Parc, y Bala. Ceir ei hanes yn llyfr Eldra Jarman, Y *Sipsiwn Cymreig*. Diddorol a hynod oedd yr hanes.

Yna daeth Gwenda Davies i sgwrsio am rai o ferched yng Nghymru oedd yn y newyddion yn ystod mis Awst. Y cyntaf oedd Cherry Vann, Archesgob newydd Cymru, Mererid Hopwood, Archdderwydd Cymru a'r bardd ac ysgolhaig, a Lili Jones, pêl-droediwr sydd yn chwarae i dîm pêl-droed merched Wrecsam a Chymru ac a dderbyniwyd i'r Orsedd eleni yn y Brifwyl yn Wrecsam dan yr enw Lili ap Gareth er cof am ei thad. Tair gwraig ddylanwadol yn eu maes.

Wedyn daeth Jên Margiad Temple Morris i arddangos gwaith celf rhai o aelodau'r gangen, a thair ohonynt yn rhan o griw Merched y Wawr Arfon fu'n cystadlu yn Sioe Llanelwedd eleni. Llongyfarchiadau i Margaret ddaeth i'r brig gyda gwaith 3D gan ddefnyddio offer ail-gylchu. Roedd Jên wedi casglu enwau caeau oedd yn cylchynu ei chartref, Cae Drain, yn Nhregarth ac wedi creu map lliwgar oedd yn enwi'r caeau.

Bu Margaret Jones yn sgwrsio'n ddifyr am bentre Tregarth yn ystod ei phlentyndod gan gyfeirio at yr amrywiol siopau oedd yma a bellach pob un ohonyn nhw wedi diflannu.

Noson wirioneddol gartrefol, difyr a phawb wedi mwynhau.

Trefnwyd lluniaeth ysgafn gan y pwyllgor, a diolchwyd i bawb am gymeryd rhan.

Bydd y Gangen yn cyfarfod yn Festri Capel Shiloh Newydd am 7.30, Nos Lun, Hydref 6, pan gawn gwmni Mair Price o Gaernarfon fydd yn siarad ar y testun 'Darllen Dotiau', sef hanes tri ewythr iddi o Ddinas Mawddwy a'r tri yn ddall. Croeso cynnes iawn i aelodau newydd. Dewch yn llu.


Ogwen Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

L. STURRS A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

Mark Davies
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY
Cyrsiau Byr a Datblygiad Proffesiynol
Short Courses and Professional Development
Ystyried dysgu rhywbeth newydd?
- Dysgu Cymunedol
- Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol
- Cyrsiau pwrpasol i fusnesau
- Darlithoedd cyhoeddus
Cysylltwch!
cyrsiaubyr@bangor.ac.uk
01248 382 875
https://www.bangor.ac.uk/cy/cyrsiau-byr-a-dpp

## Capel Shiloh Newydd

Mae'r gwasanaethau wedi ailgychwyn am 5 o'r gloch bob Sul wedi seibiant yn ystod mis Awst. Dyma restr o'r oedfaon:

Hydref 12 - Dr Ian Morris
Hydref 13 - Nos Lun y Diolchgarwch. Gwasanaeth Cymun y dan ofal ein gweinidog am 6 o'r gloch.
Hydref 19 – R.O. Jones, Gaerwen
Hydref 26 – Nerys Griffiths, Caernarfon
Tachwedd 2 – Dr Jennie Hurd, Croesoswallt
Tachwedd 9 – Eleri Lloyd Jones
Tachwedd 16 – Peter Cutts, Porthaethwy

**Drws Agored**
Mae bore Gwener yn Shiloh yn brysur gyda phaned, sgwrs a chynhesrwydd. Trowch i mewn am gwmni.

Trist yw colli un o'r cyfeillion fyddai yn arfer troi i mewn am sgwrs, sef Peter Doyle, Bro Syr Ifor, fu farw yn ddiweddar. Mor braf oedd cael ei gwmni ac edmygwn y ffaith ei fod wedi dysgu ein hiaith yn ardderchog ac yn mwynhau sgwrsio.

Anfonwn ein cofion hefyd am wellhad buan i Glenda Ellis sydd yn Ysbyty Gwynedd, hithau yn un o'r cwmni ar fore Gwener. Da ydi croesawu Mona Williams yn ôl wedi cyfnod yn yr ysbyty. Braf ydi cael ei chwmni unwaith eto.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn gyda theulu Peter Doyle, 41 Bro Syr Ifor, fu farw yn Ysbyty Gwynedd yn ystod yr haf. Roedd Peter wedi dysgu y Gymraeg yn rhugl a thrist iawn oedd clywed am ei farwolaeth.

**Yn yr Ysbyty**
Daeth y newyddion fod Glenda Ellis, Hen Dyrpeg, yn Ysbyty Gwynedd, a dymunwn iddi lwyr iachâd a chael dod yn ôl adre'n fuan.

Rydym hefyd am ddymuno gwellhad llwyr i John Davies, Tansgafell, sydd yn Ysbyty Gwynedd ers tair wythnos, gan anfon ein cofion ato ac at ei briod, Gwen.

Cegin Karen
Cacennau, Peis a Sawrus
Te Prynhawn a Bwffe ar gael
@CeginKaren Tel: 07886 560781
Ebost / Email: ceginkaren@btinternet.com

# 37 mlynedd o wasanaeth i'r ardal

Ers mis Ebrill mae wedi bod yn newid byd ar Glyn ac Ann Williams. Wedi cadw dau dŷ tafarn yn yr ardal ers nifer o flynyddoedd daeth yn amser iddynt roi 'stop tap' arni. Yn 1988 daethant yn denantiaid ar y *George*, fel yr oedd hi bryd hynny, yng Ngharneddi, ac yno y buont gyda Paul a Keith, y ddau fab, tan 1997 pan ddaethant i lawr i'r Stryd Fawr a symud i mewn i'r *Bull*.

Wedi cadw'r dafarn am ddwy flynedd penderfynwyd prynu adeilad y *Coach and Horses* drws nesaf ac ehangu'r dafarn. Manteisiwyd hefyd ar y cyfle i gael man braf i eistedd y tu allan a chael mwynhau'r haul yn sŵn afon Ogwen. Cynhaliwyd aml i nosweithiau caws a gwin i gasglu pres at elusennau lleol, gyda bwffe Ann yn dod yn boblogaidd iawn, yn enwedig gyda'r timau dartiau, pŵl, dominos, heb sôn am y dyddiau calan hyd y blynyddoedd.

Clywais am ddywediad a ddefnyddiwyd gan y diweddar Meth Williams, Carneddi, ac yntau yn ei dro wedi bod yn cadw'r *George*. Pe dywedir am berson a fyddai'n dafarnwr ei fod yn 'cadw tŷ da' golygai y byddai'r dafarn yr oedd yn ei chadw yn lle a fyddai'n cael ei redeg yn dda. Heb os bu Glyn ac Ann yn 'cadw tŷ da' yma ym Methesda am flynyddoedd.

Mae'r ddau bellach yn byw yn Rhos y Nant a Glyn yn cael rhoi tro o gwmpas y cwrs golff yn amlach. Pob hwyl i'r ddau ohonoch ar eich ymddeolad, a diolch i chi am eich gwasanaeth i'r gymuned dros y blynyddoedd.

Ond dydi'r stori ddim yn gorffen yn y fan yna. Rydym yn falch iawn bod perchnogion newydd y *Bull* yn ddau o hogia Pesda ac wedi eu magu yma, a'r ddau yn digwydd bod efo'r un enw, Dewi Fôn Thomas a Dewi Llewelyn Siôn. Fel Glyn ac Ann, bu Dewi Siôn hefyd yn cadw'r Siôr yng Ngharneddi ers 2013. Penderfynodd y ddau fynd amdani a phrynu'r *Bull*. Nhw sydd bellach yn cadw'r tŷ ac maent yn croesawu cwsmeriaid ffyddlon a newydd.

Dymuna'r ddau ddiolch i Glyn ac Ann am y cymorth a'r gefnogaeth maent wedi ei dderbyn ganddynt wrth setlo a dechrau'r fenter newydd. Pob hwyl i chi, hogia.



## Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Bu sawl aelod o'r gangen i lawr yng Nghaerffili yn ddiweddar yn cefnogi ymgyrch fywiog

Lindsay Whittle yn yr isetholiad. Roedd yr ymateb ar stepen y drws yn galonogol iawn ac

roedd yn bleser cyfrannu at waith ysbrydoledig Lindsay a'i dîm.

Yn nes at adref, rydym yn falch iawn o longyfarch pawb fu'n rhan o'r ymgyrch i adfer yr enw Cymraeg Llyn Celanedd ar warchodfa natur Aberogwen ger Talybont. Mae hon wedi bod yn ymgyrch gadarn ac effeithiol, ac mae wedi dwyn ffrwyth – gyda'r enw Cymraeg traddodiadol bellach yn cael ei adfer yn swyddogol. Mae hwn yn ganlyniad arbennig, ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr ymdrechion y sawl fu'n gweithio'n galed i sicrhau'r newid yma.

Yn ein cyfarfod misol, clywodd yr aelodau am waith ein cynghorwyr:. Mae cryn dipyn o waith tarmacio wedi digwydd yn ddiweddar, gyda ffyrdd Craig y Pandy i fyny at Ysgol Bodfeurig a Chaegwigyn yn Nhalybont yn cael eu hatgyweirio ar ôl blynyddoedd o alw am wella. Bydd Ffordd Hen Barc, Rachub yn cael sylw y flwyddyn nesaf. Mae buarth Ysgol Llanllechid wedi'i ailwynebu ac mae'r gwaith ar yr estyniad yn mynd rhagddo.

*Cysylltwch â Neville Hughes*
*(Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com*

# CHWILAIR



## Capeli Richard Owens Lerpwl

Yn y Chwilair mis yma MAE ENW DEUDDEG CAPEL A DDYLUNIWYD GAN RICHARD OWENS, LERPWL i'w darganfod. Maent i gyd wedi eu hadeiladu yng Nghymru. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ayyb yn <u>un</u> llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 30 Hydref. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

**Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | S | H | E | I | M | M | Y | N | Y | D | D | S | E | I | O | N | B | G |
| V | C | H | W | A | R | E | L | G | O | C | H | H | M | D | W | H | U | R | Z |
| M | X | V | A | D | N | D | N | A | L | P | A | U | Q | U | S | O | F | Y | R |
| P | Y | Q | Z | G | G | R | H | C | U | A | M | W | N | O | Y | R | I | N | A |
| H | S | Z | E | U | T | F | D | X | U | P | N | W | R | H | C | Q | H | M | W |
| E | O | D | H | O | Y | E | E | G | L | E | O | A | M | H | E | P | T | A | T |
| C | I | R | B | B | C | U | U | J | E | P | L | T | B | M | I | V | V | W | D |
| A | C | B | E | B | F | R | F | O | F | G | J | V | I | E | I | R | R | R | X |
| D | I | M | H | B | T | T | O | S | R | K | O | P | W | R | R | C | M | K | C |
| S | B | O | R | C | X | V | R | Y | E | H | S | T | M | R | E | F | Y | J | D |
| E | Z | H | B | C | W | O | H | S | D | C | R | A | I | X | R | N | I | L | X |
| H | J | M | J | M | B | W | A | T | D | E | X | M | D | E | X | K | F | U | P |
| T | C | Q | E | Y | O | S | I | I | N | L | F | E | Z | R | Z | Q | R | O | C |
| E | T | D | G | L | U | W | R | S | A | L | Z | E | E | B | E | A | J | K | J |
| B | C | L | N | N | A | L | O | R | L | V | N | O | G | J | P | W | P | G | S |
| O | W | J | A | J | Q | S | M | U | L | E | L | F | S | V | T | X | E | U | G |
| H | S | B | L | Z | E | A | F | X | B | I | W | T | Z | H | K | V | A | G | B |
| N | I | K | A | D | S | I | K | E | O | G | D | H | B | S | I | U | R | O | X |
| L | A | G | X | R | A | E | E | K | K | D | A | N | T | O | G | W | B | M | B |

**Dyma atebion chwilair Medi:** Agnes Owen; Ann Hughes; Ceridwen Jones; Daisy Parry; Elizabeth Williams; Ellen Evans; Florence Mary Jones; Grace Williams, Jane Hughes; Jennie Griffiths; Mary Ellen Griffiths; Matilda Williams.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd hyd i'r atebion cywir:** Judith Hughes, Llangoed; Dorris Shaw, Bethesda; Dewi Lewis-Jones, Llandegfan; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Barbara Anne Conlan, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Margaret Williams, Erw Las; Eirwen Owen, Erw Las; Gwen Davies, Bethesda; Carys Parry, Caerhun; Nia Wyn Bagnall, Llandygái; Sandra Howell, Rachub.

**Enillydd Medi oedd:** Sandra Howell, 27 Cae Rhosydd, Rachub LL57 3DF


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead cyf

Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Natur o'n Cwmpas

## Llinos y Mynydd – aderyn prin efo cynefin yn Nant Ffrancon

Aderyn sy'n nythu ar draws gogledd Ewrop a chanolbarth Asia yw llinos y mynydd (*Linaria flavirortis*; *twite*). Yng Nghymru, mae nifer fach o linosiaid y mynydd yn nythu yn Eryri, ond dros sawl degawd mae'r niferoedd wedi gostwng yn sylweddol. Er 1996, coch yw ei statws gwarchodaeth, hynny yw mae'r niferoedd bellach yn argyfyngus o isel. Serch hynny, mae ymdrechion yn parhau i warchod yr aderyn prin a'i gynefinoedd, gan gynnwys gosod modrwyau lliw ar yr adar er mwyn dod i wybod mwy am eu patrwm symud.

Mae Nant Ffrancon yn un o gynefinoedd llinos y mynydd, ac mae'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar yng Nghymru, ffermwyr lleol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru yn cydweithio ar brosiect i warchod y cynefin hwn ar gyfer yr adar. Os bydd newidiadau anffafriol i'r cynefin, bydd yr adar yn cilio a bydd hi'n eithriadol o anodd eu denu'n ôl wedyn.

Prif fwyd yr adar hyn yw hadau dant y llew neu hadau suran ac ychydig drychfilod, ac fe'u gwelir yn heidio ar y ddaear, ran amlaf mewn tyfiant isel. Byddant yn dechrau magu'n weddol ddiweddar yn y tymor – fis Mai ran amlaf – gan nythu mewn grug neu lwyn trwchus. Ar gyfer gwneud nyth, bydd y ceiliog a'r iâr yn hel mân wreiddiau a grug, efo gwlân, blew, plu a gwlaniach ysgall i'w leinio – ond yr iâr ei hun fydd yn adeiladu'r nyth. Bydd yn dodwy 5-6 wy gwyrddlas efo brychni brown, a hi'n unig fydd yn gori, a hynny am 13 diwrnod. Bydd y cywion yn gadael y nyth ymhen 15-17 diwrnod ar ôl deor.

Fodd bynnag, ychydig iawn o linosiaid y mynydd sy'n ymweld â Chymru yn y gaeaf, a nifer fechan sy'n nythu yn ucheldir y gogledd. Yn y gaeaf, maent yn symud i arfordir dwyrain Lloegr a threulio'r misoedd oeraf yng nghwmni adar o dir mawr Ewrop ar gaeau a morfeydd heli.



Yr iâr efo'i phig felen.



Y ceiliog efo'i big lwyd a phlu pinc ar ei grwmp.

Dymunwn yn dda i brosiect gwarchod cynefin llinos y mynydd yn Nant Ffrancon. Mae'r wiwer goch a bela'r coed wedi eu hail-gyflwyno yng nghoedydd ein dyffryn, a gobeithio'n fawr y bydd y creaduriaid hyn yn ffynnu eto yn y fro ac yn cyfoethogi ei bywyd gwyllt. Mae diogelu byd natur a'i fioamrwiaeth yn hanfodol, a da fyddai gweld llinos y mynydd yn goroesi yn ein hardal i'r dyfodol.

---

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

***Oes gennych chi ddiddordeb mewn hysbysebu yn Llais Ogwen?***

















## Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Profedigaeth**
Gyda thristwch, cofnodwn farwolaeth un arall o'n ffrindiau o'r pentref. Bu farw David Carr, 5 Cae Bach, yn dawel ar yr 16eg. o Fedi. Yr oedd yn 97 oed. Hyd yn gymharol ddiweddar, yr oedd Dafydd mewn iechyd da ac yn mwynhau bywyd annibynnol. Does dim cymaint â hynny ers iddo roi'r gorau i yrru car. Roedd yn barod ei sgwrs bob amser, a gwerthfawrogai gymwynasgarwch ei gymdogion. Anfonwn gydymdeimlad dwys at ei fab, David, fu mor ofalus ohono yn ystod y misoedd olaf; at ei ferch ym Mangor, a'r teulu oll yn eu colled.

**Drama Gyfres newydd ar S4C**
Yn ogystal ag adnabod Wyn Bowen Harries, 1 Tyddyn Cottages, fel cymydog cymwynasgar a Chynghorydd Bro, caiff trigolion y pentref ddilyn ei hynt a'i helynt fel hen ŵr blin a checrus yn y ddrama deledu newydd, 'Y Golau: Dŵr'. Mae'r rhan yn gwbl groes i natur Wyn ond fel actor dawnus a phrofiadol, llwydda i'n hargyhoeddi'n llwyr.

**Brysiwch wella**
Anfonwn ddymuniadau gorau i Ruth Fawcett, 6. Dolhelyg, fu yn Ysbyty Gwynedd yn cael gosod peiriant bach i reoli curiad ei chalon. Brysia wella, Ruth, iti gael bod yn ôl ar y lôn yn cynnal gwaith dy eglwys.

Treuliodd Shelagh Chadwick, 1 Cae Bach, bedwar diwrnod yn Ysbyty Gwynedd, ble y derbyniodd hithau driniaeth ar ei chalon. Dymunwn wellhad llwyr a buan iti, Shelagh, ac i bawb arall sydd o dan y don ar hyn o bryd.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau i Joy ac Ian, Llwyn Onn, Aberogwen, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ar ddiwedd mis Awst, ganwyd merch fach, Mabli, i'w mab Cian a'i gymar Kiera yng Nghaerdydd. Bydd angen teiars newydd ar gar Llwyn Onn yn o fuan, 'faswn i'n tybio. Pob bendith arnoch i gyd fel teulu.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Lois Williams, 4 Cae Gwigin, sydd wedi derbyn gradd M.A. gan Brifysgol Portsmouth, wedi'i seilio ar ei gwaith yn Swyddog Prawf. Pob bendith a llwyddiant iti i'r dyfodol, Lois.

Oherwydd diffyg gofod yn rhifyn swmpus mis Medi o'r *Llais*, ni chawsom gyfle i lonyfarch plant y fro ar ganlyniadau arholiadau'r haf, na dymuno'n dda iddynt ar gyfer y cam nesaf, boed i ysgol, cwrs coleg, prentisiaeth neu swydd lawn amser. Peidiwch ag anghofio ym mhle mae'ch gwreiddiau, blant, a daliwch i siarad Cymraeg ble bynnag y boch.

**Newid yn yr amserlen**
Mae amser ymweliad y Swyddfa Bost Deithiol wedi newid unwaith eto. Bydd y fan yn cyrraedd Cae Bach erbyn 1:40 bob pnawn dydd Mercher, cyn mynd i lawr i'r gilfan wrth Gapel Bethlehem tua 2 o'r gloch. Disgwylir iddo adael Talybont am 2:25 y.p. ond mae'n berygl iddo fynd oddi yno'n gynt, os na chaiff gwsmeriaid.

Mae mwy i'r gwasanaeth na phostio llythyrau a phrynu stampiau. Medrwn godi pres; talu biliau; holi am ffurflenni; anfon parseli a llythyrau dramor, ac amryw byd o bethau eraill.

Mae'n wasanaeth handi iawn, a byddai'n biti garw inni ei golli oherwydd diffyg cefnogaeth.

### Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*

Hydref 19: Oedfa Ddiolchgarwch.
(Derbynnir rhoddion i'r Banc Bwyd)
Hydref 26: Parchg Gerallt Lloyd Evans.
Tachwedd 2: Mr D. Glyn Williams.
Tachwedd 9: Parchg Cledwyn Williams.
Tachwedd 16: Parchg Olaf Davies.
Tachwedd 23: Oedfa i'w threfnu.
Tachwedd 30: Parchg Dafydd Job.

***Croeso cynnes i bawb.***

### Eglwys St Cross

**Croeso'n ôl**
Rydym hynod o falch o weld ein horganydd, Geraint Gill, a'i wraig, Helen, yn ein plith unwaith eto ar ôl iddyn nhw ddioddef misoedd o afiechyd. Gobeithiwn y bydd eich iechyd yn parhau i wella, Geraint a Helen, a bydd y gerddoriaeth yn rhoi hwb i chi.

**Gwasanaethau rheolaidd** - ar y Sul cyntaf a'r 3ydd Sul bob mis am 11 o'r gloch - rota gwasanaethau wrth borth yr eglwys.

Diolch i bawb wnaeth gyfrannu at ein hapêl Diolchgarwch.

**Gŵyl yr Holl Saint, dydd Sadwrn Tachwedd 1af**:
Bydd yr Eglwys ar agor o hanner dydd tan 4 o'r gloch y prynhawn ar gyfer unrhyw un sydd eisiau dod am ennyd o dawelwch, i fyfyrio a goleuo canhwyllau er cof am anwyliaid.

**Sul y Cofio, Tachwedd 9fed**: Gwasanaeth am 10.50 y bore.

**Bore Coffi**: ar y bore Mawrth cyntaf yn y mis fel arfer am 10.30 a.m. yn yr Ysgoldy. Diolch i bawb oedd yn gallu dod i'r Bore Coffi ym mis Medi i gefnogi ymdrech er budd Macmillan Cancer Support, a diolch am yr holl roddion at yr achos.
Bydd y Bore Coffi nesaf ar Dachwedd 4ydd.

**Cysylltu**:
Am fanylion pellach neu i holi am ymweliadau bugeiliol, cymun cartref, bedydd, priodasau, angladdau neu gladdu ym mynwent yr eglwys, cysylltwch â'r Ficer, y Parchedig Ddr Gareth Lloyd: **GarethLloyd@cinw.org.uk** 01248 361521; neu'r Barchedig Sara Robrets, Caplan Bro: **SaraRoberts@churchinwales.org** 07967652981; neu Warden Eglwys St Cross, Catrin Hobson 07881 802882


STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
**Ebost:** stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com





# Y Gerlan

**Caren Brown**
07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Pen-blwydd arbennig**
Pen-blwydd hapus arbennig i Gwion Hughes, Ciltwllan. Gobeithio bod chdi wedi mwynhau'r dathlu ac y byddi'n cael hwyl yn defnyddio dy 'bus pass'!

Pen-blwydd hapus arbennig i Gab yn Tantreflys. 'Roedd y lluniau o'r trip dathlu 50 yn Nulyn yn dyst dy fod wedi cael lot o hwyl yn dathlu'r garreg filltir yma.

**Cydymdeimlo**
Yn y rhifyn diwethaf o *Lais Ogwan* 'roeddwn yn cofio at Alun Ogwen Thomas, Ffordd Gerlan. Mae'n anodd derbyn a chredu bod Alun wedi ein gadael erbyn hyn. Mae ein cydymdeimlad yn fawr gydag Yvonne, Kevin, Alan a'u teuluoedd yn ogystal â'i chwaer a'i frawd - Nesta a Gwyn. Bydd y golled yn enfawr i'r teulu ond hefyd i gymuned Gerlan a'r ardal i gyd. Byddwn wir yn ei golli - ei sgwrs ddifyr, ei anwyldeb a'i garedigrwydd a sŵn y Subaru yn pasio'r tŷ. Cysgwch yn dawel Yncl Alun.

**Ymddeoliad Hapus**
Dymuniadau gorau i Jez Shea, Ffordd Gerlan sydd newydd ymddeol o'i swydd yn y brifysgol ym Mangor. Gobeithio y byddi di'n mwynhau'r cyfnod newydd yma'n dy fywyd ac yn cael cyfle i wneud mwy o'r pethau ti'n eu mwynhau mewn bywyd.

**Rhedwyr Gerlan**
Mae 'na sawl un yn y Gerlan sydd yn mwynhau rhedeg a chymryd rhan mewn rasys. Dau sydd wedi dod i fy sylw mis yma ydi Megan Hughes, Ciltwllan a Chris Williams, Bryn Caseg. Bu i Chris gystadlu yn Ras Cefn y Ddraig (o Gastell Conwy i Gastell Caerdydd) a chodi arian i Gymdeithas Deillion Gogledd Cymru. Llwyddodd Megan i gwblhau ras 'Ring o Fire' o gwmpas Ynys Môn – taith o 130 o filltiroedd!

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch.

**Babis Gerlan**
Llongyfarchiadau i Ceri Ogwen a Martin Hughes ar enedigaeth eu merch fach, Ilid Elan.

Mae'r teulu i gyd wedi gwirioni.

Llongyfarchiadau hefyd i Emma a Bedwyr, 16 Ffordd Gerlan ar enedigaeth eu mab bach, Harri Dylan Williams ar y 23ain o Fehefin. Llongyfarchiadau hefyd i Jayne ac Egryn am ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf ac i hen nain, Anne.

Llongyfarchiadau eto i nain a thaid Helen a Dylan, Braichmelyn. Byddai'r teulu'n hoffi diolch i bawb am eu holl garedigrwydd.

**Brysia wella**
Mae Sion Roberts, Ciltrefnus wedi bod yn yr ysbyty yn cael triniaeth. Mae'n dda gweld ei fod adra erbyn hyn ac yn cael cychwyn yn ôl yn Ysgol Pendalar yn fuan. Brysia wella, Sion.

**Caban Gerlan - Caffi Trwsio**
'Roedd Caffi Trwsio mis Medi yn llwyddiannus iawn a bu'n bosib trwsio dril, sbeinglas, pâr o jîns a mwy. Bydd y caffi trwsio nesaf yn digwydd ddydd Sul y 26ain o Hydref (11 tan 1) ac yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau gwnïo sylfaenol. Bydd modd i unrhyw un ddod draw i gymryd rhan, a bydd 'na 'chydig o beiriannau gwnïo ar gael i'w defnyddio, neu dewch ag un eich hun os ydych yn berchen ar un, ac ella eisiau cyngor ar sut i'w ddefnyddio.





Omnes dies et noctes quasi sub una sollempnitate continuato gaudio ad Domini et apostoli decus ibi excolantur. Valve eiusdem basilice minime clauduntur die noctuque et nullatenus nox in ea fas est haberi atra (cf. Ap 21,25) quia candelarum et cereorum splendida luce ut meridies fulget. (Códice Calixtino)

El Cabildo de la Santa Apostólica Metropolitana Catedral de Santiago de Compostela sita en la región occidental de las Españas, a todos los que vieren esta carta de certificación de visita, hace saber que:

Catrin Doyle

ha visitado la Basílica donde desde tiempo inmemoral los cristianos veneran el cuerpo del Beato Apóst[ol] Santiago.

Con tal ocasión el Cabildo llevado del deber de caridad al tiempo que con gozo le dan al peregrino saludo del Señor y piden -por intercesión del Apóstol- que el Padre se digne concederle las riquez[as] espirituales de la peregrinación, así como los bienes materiales. Bendígalo Santiago y sea bendito.

Dada en Compostela Meta del Camino de Santiago el día 16 del mes Septiembre del año 2025

Despues de realizar 779 Kms. Desde S. Jean P. Port donde comenzó el 17 de Agosto del 2025 por la ruta del Camino Francés

José Fernández Lago
Decanus SAME Cathedralis Compostellanae

**Llongyfarchiadau Catrin!**
Yn rhifyn mis Medi 'roeddwn yn dymuno'n dda i Catrin Doyle wrth iddi gychwyn ar daith gerdded o 500 milltir. Mae'n bleser adrodd bod Catrin wedi llwyddo i gwblhau'r gamp anhygoel o gerdded y Camino Frances o Saint Jean Pied de Port yn y Pyrenees yn Ne Ffrainc i Santiago yn Galicia a hynny ar ben ei hun mewn 31 diwrnod. Dyma ei llun y tu allan i'r gadeirlan ar ddiwedd y daith a llun o'r dystysgrif a gafodd er mwyn cadarnhau ei bod wedi ei gwblhau. Da ni mor falch ohonot, Catrin!

Mae Catrin a'i thad, Charles eisiau diolch o waelod calon i bawb sydd wedi cyfrannu i elusen Motor Neurone ac i bawb yrrodd negeseuon o gymorth ac anogaeth tra 'roedd hi ar y daith. 'Roedd y rhain yn help mawr pan 'roedd hi'n teimlo'n hynod flinedig ac yn meddwl na fyddai'n gallu cario 'mlaen.




**Cysylltwch â ni:**
**golygydd@llaisogwan.com**

## Bethesda

**Mary Jones**
maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Ysbyty**
Bu Renee Parry, Plas Ogwen yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn gwella erbyn hyn. Cofion a gwellhad buan at bawb sy'n sâl neu yn yr ysbyty.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Myra Hughes (Twigge gynt), Llanfairfechan a fu farw ar Awst 30ain, nifer ohonynt yn bwy yn Nyffryn Ogwen. Daeth ei merch, Mandy, a'i mab yng nghyfraith, Glyn, i'w hangladd ynghyd â Joe, brawd Myra, o Fort Lauderdale, Florida ble maent yn byw ers blynyddoedd. Hogyn o'r Gerlan ydy Glyn Parry ac yn fab i Doris Shaw.

Cydymdeimlwn hefyd ag Alan, Nerys, Yvonne a Simon a Kevin a Sioned yn eu profedigaeth o golli tad a thad yng nghyfraith hoffus, sef Alun Ogwen Thomas, Ffordd Gerlan. Hefyd â'i wyrion a'i wyresau, Mark, Beth, Lauren, Sam, Sion, Elis, Lois, Cai ac Elin, a'i frawd a'i chwaer, Gwyn a Nesta.

Ar Awst 1af bu farw Carol Jones, gynt o 'Cartrefle', Pant, Bethesda a hithau yn 73 mlwydd oed. Roedd Carol yn byw yng Nghanada ers rhai blynyddoedd. Fel canlyniad daeth nifer o'i chyd-ddisgyblion at ei gilydd er mwyn dathlu ei bywyd a chofio amdani. Roedd Carol yn chwaer i Ann a Tom a fu hefyd yn ddisgyblion yn Ysgol Penybryn a Dyffryn Ogwen.

**Teledu**
Braf oedd gweld y Parchedig Sara Roberts, Glanogwen ar y rhaglen 'Mynd am Dro' nos Sul, Medi 29ain. Roedd hi'n gampus am ddangos ein bro hardd i'r gwylwyr.

**Diolch**
Hoffai Michael, Carol ac Alison, Llannor, Ffordd Garneddwen, ddiolch o galon i deulu, ffrindiau, a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu mam yn ddiweddar. Fe gasglwyd £800 tuag at Dŷ Gobaith er cof am Elsie.

## Eglwys Crist, Glanogwen

**Amlenni Rhodd**
Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, Gallwn alw amdanynt.

Os oes rhywun yn awyddus i gyfrannu'n wythnosol i'r eglwys, rhowch wybod i Lester, ein Trysorydd, ar lbath@phonecoop.coop

**Diolch**
Diolch yn fawr iawn i'r ffyddloniaid sydd yn cyfrannu'n gyson at gynnal a chadw'r mynwentydd er cof am aelodau'r teulu. Mae costau'r gwaith yn cynyddu, a'r gwirfoddolwyr wedi mynd i oed! Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael, yn gwella ar ôl llawdriniaeth, neu'n gaeth i'w cartrefi, gan ddymuno gwellhad a chysur i bawb sy'n dioddef mewn unrhyw fodd. Cofiwn yn arbennig am y rhai sy'n galaru ar ôl colli anwyliaid.

Cofiwch roi gwybodaeth i'r ficer neu Sara os oes rhywun yn awyddus i gael ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

**Newid dros y gaeaf!**
Mae trefn y gwasanaethau'n newid o fis Medi ymlaen, felly o hynny tan y Pasg, bydd y drefn fel a ganlyn:

**Gwasanaethau Eglwys Crist:**
**Suliau 1af a'r 2il yn y mis**: 11.00 y bore – Cymun Bendigaid.

**Y TRI bore Mercher cyntaf ym mhob mis** am 10.30am – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.
Mae'r drefn newydd er arbed ychydig o gostau goleuo a chynhesu adeilad mor fawr dros y tywydd oer. Croeso cynnes i bawb.

**Manylion cyswllt**
Gellir cysylltu â'r Parchedig Ddr Gareth Lloyd, ein ficer, ar 01248 361521 am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, neu'r Parchedig Sara Roberts, ein hoffeiriad cynorthwyol, ar 07967652981.










***Newyddion mis nesa i'w dderbyn erbyn 1 Tachwedd.***
***Dyddiad cyhoeddi 20 Tachwedd.***

***Cysylltwch â ni:***
***golygydd@llaisogwan.com***

## Yr Eglwys Unedig

**Oedfaon mis Medi**
Yn dilyn oedfa undebol yng Nghaeathro o dan ofal ein Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths, derbyniasom wasanaethau bendithiol dros ben yng nghwmni'r Parchedig Anna Jane Evans, Mr Donald Pritchard, a Mrs Eirlys Williams. Mae ein diolch yn fawr iddynt am eu ffyddlondeb i ni yma yn Jerusalem.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion, a'n dymuniadau gorau, at y rhai sydd yn methu bod gyda ni yn yr oedfaon oherwydd llesgedd ac afiechyd, gan obeithio y cewch gysur o wybod ein bod yn meddwl amdanoch.

**Hysbysfwrdd**
Bu Carol a Dewi Jones yn brysur yn ddiweddar yn adnewyddu a thacluso'r hysbysfwrdd yng ngardd y Capel. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu gwaith, ac i Alun Davies am greu pennawd llechen hyfryd i'w roi arno. Dyma lun o Alun yn ei osod yn ei le:



**Bore Coffi**
Cynhaliwyd Bore Coffi hynod o lwyddiannus tuag at Apêl blynyddol MacMillan, gyda'r Festri'n llawn bwrlwm. Gwnaed elw o dros £960, a hoffem ddiolch o galon i bawb a ddaeth i gefnogi'r apêl pwysig hwn. Diolch yn arbennig i Minnie am drefnu'r cyfan yn ei ffordd ddihafal arferol, ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd at lwyddiant y bore.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Hydref 05: Y Parchedig Olaf Davies (5)
Hydref 12: Y Gweinidog (10)
Hydref 19: Y Parchedig Robert Capon (10)
Hydref 26: Unedig yng Nghapel y Rhos, Llanrug (10)
Tachwedd 02: Dr Dafydd Iwan (5)
Tachwedd 09: Y Gweinidog (10)
Tachwedd 16: Y Parchedig Eric Jones (5)
Tachwedd 23: Y Gweinidog (10)

Cofiwch hefyd y gallwch ymuno â ni dros y ffôn yn yr oedfaon – cysylltwch a'r Ysgrifennydd, Walter Williams i dderbyn yr wybodaeth angenrheidiol: 601 167.

**Gwasanaeth Nadolig Cymunedol (Rhag-hysbysiad).**
Cynhelir y gwasanaeth uchod nos Sul, Rhagfyr 14eg, am 7 o'r gloch yr hwyr, yn y Capel. Cadwch y dyddiad yn glir!

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Yn festri Capel Jerusalem, Bethesda**
**Nos Lun 10 Tachwedd**
**7.00 – Y Cyfarfod Blynyddol**
**7.15 – Dafydd Roberts – Gwaith Nwy Bethesda**

**Wyneb yn wyneb: Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com**

**Rhithiol tros Zoom: Cofrestrwch efo esme@ogwen.org.**
**Cofrestrwch erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf.**

**FFI AM Y CWRS**
Oedolion £10.00. Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol – £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif 'Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen' drwy: BACS: **40-16-02 41386212**, neu gydag arian parod ar y noson

**SWYDDOGION Y GYMDEITHAS YN YSTOD 2024/25:**
**Cadeirydd**: Y Prif-fardd Ieuan Wyn
**Trefnydd / Trysorydd**: Dafydd Roberts, (01248) 600798 dafydd@caerwern.cymru
**Ysgrifennydd**: Gareth Llwyd, Talgarnedd, Bethesda (01248) 601415 garethllwyd197@btinternet.com
**Llywyddion Anrhydeddus:**
Dr John Llywelyn Williams ac Andre Lomozik



## Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com
(01248) 351015

### Capel Shiloh Newydd

**Gwasanaethau'r Sul**

Dyma fanylion gwasanaethau Hydref/Tachwedd a gynhelir yn y Neuadd am 10 o'r gloch y bore:

**Hydref 19:** Hugh Pritchard
**Tachwedd 2:** Dr Jennie Hurd
**Tachwedd 9:** Parch. John Gwilym Jones
**Tachwedd 16:** Parch. Olaf Davies

Croeso cynnes iawn i bawb.

**Canu yng Nghanada**

Cafodd Elwyn Jones, Tan y Weirglodd, fodd i fyw yn canu yng Nghanada gyda Chôr y Penrhyn ddiwedd Awst a dechrau Medi fel rhan o Ŵyl Cymry Gogledd America



yn Toronto ac Ottawa. Bu'r daith hefyd yn gyfle i Elwyn, sy'n canu'n yr Adran Tenor 1, gyfarfod â pherthnasau oedd wedi dod i fyny o'r Unol Daleithiau, sef Guy Griffiths a'i deulu a'i gyfneither a'i gŵr hithau Dafydd Henkel, fu'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Bangor yn yr wythdegau. Fe ddysgodd Dafydd Gymraeg yno ac mae'n parhau i siarad Cymraeg heddiw.

(Cafodd eu mab, Owain Siôn, ei fedyddio yng Nghapel Peniel yng nghanol yr wythdegau).

"Mi roedd hi'n daith fythgofiadwy," meddai Elwyn. "Mae'n anodd dewis un uchafbwynt i'r daith... Roedd cael canu wrth y Niagra yn wych wrth gwrs oherwydd yr olygfa ond mi roedd cael canu yn y gyngerdd fawreddog yng Nghadeirlan Ottawa o flaen cynulleidfa lawn yn fraint hefyd. Ac mi wnes i fwynhau canu yn y Gymanfa Ganu ar y nos Sul." Atgofion lu i'w trysori felly.



**Clwb Rhiwen**

Ail-ddechreuodd y Clwb ar brynhawn Mercher, Medi 17, gyda phrynhawn i roi cyfle i'r aelodau ddal i fyny â'i gilydd dros banad ar ôl seibiant yr haf. Catherine a Nia oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad. Bydd y Clwb yn ymgynnull yn y Neuadd ar Dachwedd 19 pryd y bydd yr aelodau yn mynd ati i wneud cardiau Nadolig. Mae'r Clwb yn cyfarfod ar y trydydd prynhawn Mercher o'r mis am 2 o'r gloch yn y Neuadd ac mae croeso cynnes i unrhyw un dros 50 ymuno â ni.

**Clwb Ieuenctid**

Da gweld fod y Clwb Ieuenctid, ar ôl seibiant o rai misoedd, wedi ailgychwyn ar Fedi 9.

Mae'n cyfarfod yn y Neuadd bob nos Fawrth rhwng 7.15 ac 8.45 ac yn agored i blant ysgol uwchradd rhwng 11-16 oed ac yn cynnig rhaglen o weithgareddau amrywiol.

**'Fuse Pilates'**

Ers dechrau Medi, yn dilyn sesiwn blasu a ddenodd nifer dda i gymryd rhan, mae trigolion y pentref bellach yn cael cyfle i gadw'n heini a lleddfu straen gyda dosbarth Pilates newydd sbon yn y neuadd bentref. Mae'r sesiynau'n cael eu cynnal bob bore Sadwrn am 9:30 a.m. dan arweiniad dwy hyfforddwraig gymwys – Emma a Ffion. Mae Emma a Ffion yn cydweithio yn y maes ffitrwydd ers dros saith mlynedd, ac wedi cymhwyso i fod yn hyfforddwyr Pilates ers 2023. Mae'r dosbarth yn agored i bawb – boed yn ddechreuwyr llwyr neu'n rhai mwy profiadol – ac yn canolbwyntio ar gryfhau'r corff, gwella hyblygrwydd, a hyrwyddo lles meddyliol. Dewch draw i roi cynnig arni – does dim angen offer na phrofiad blaenorol, dim ond awydd i symud a mwynhau! Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â ffionroberts1996@gmail.com

1969
**M.HUGHES A'I FAB**
**CONTRACTWYR TOI**
**Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633**
**☎ (symudol) 07702 583765**
**mhughesandson@hotmail.com**
**Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.**

### Merched y Wawr

Cafwyd dechrau difyr i'r tymor newydd ar Fedi 9 gyda sgwrs gan ein llywydd, Linda Jones. 'Hen Drysorau' oedd y testun ac roedd Linda wedi dod â sawl trysor teuluol efo hi. Prif destun y sgwrs oedd carthen wlân Gymreig a oedd yn perthyn i nain Melvyn, ei gŵr. Roedd Mel yn cofio cysgu o dan y garthen pan fyddai'n mynd i aros efo'i nain yn blentyn meddai.

Gwraig oedd yn byw yng Nghlwt y Bêl, Deiniolen oedd ei nain a chawsom dipyn o'i hanes hi yn ogystal â chipolwg ar y ffordd o fyw yn y cyfnod. Yr hyn oedd wedi synnu pawb oedd y ffaith fod y garthen, er ei hoed, yn edrych fel newydd! Fe allai fod yn un hollol gyfoes.

Fe fu Linda'n trio darganfod ym mha felin y cafodd y garthen ei chynhyrchu ond hyd yma ni chafodd ateb er iddi gysylltu â Sain Ffagan ac Amgueddfa Storiel. Efallai y cawn wybod erbyn y cyfarfod nesaf!

Kate a Carol oedd yn gyfrifol am y baned, a Kate a enillodd y raffl. Anfonwyd ein cofion at Dilys Parry oedd yn methu bod efo ni y prynhawn hwnnw. Bydd y cyfarfod nesaf brynhawn Mawrth, Tachwedd 11.

## Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar ôl seibiant dros yr haf, 'roedd yn braf croesawu pawb yn ôl i festr Gapel Jerusalem i ail-gydio yn ein cyfarfodydd. Yn gyntaf, cawsom funud o dawelwch i gofio am ein diweddar annwyl aelod, Bessie Buckley, a hefyd estyn ein cydymdeimlad i Fred a'r teulu.

Fe'n hatgoffwyd gan Carys am ein dau ymweliad diwethaf – un i Llaethdy Gwyn ble cawsom groeso cynnes iawn gan Carrie, a'r llall i ffatri Llaeth y Llan yn Sir Ddinbych. Cafwyd diwrnod arbennig yn mynd o gwmpas Sir Ddinbych a Chonwy gan orffen y diwrnod ym Metws-y-Coed.

Ein siaradwr gwadd oedd Annwen Hughes yn sôn am ei gwaith fel gwirfoddolwraig i Hosbis Dewi Sant. Gwaith pwysig a diddorol. Mae croeso i aelodau newydd i ymuno gyda ni. 'Rydym yn cyfarfod ar y nos Iau gyntaf ymhob mis am 7 o'r gloch yn festri Capel Jerusalem.





CANOLFAN TREGARTH

**Ar Ddiwedd Blwyddyn y Murlun Mawr**

**CYFARFOD BLYNYDDOL**
yn y Ganolfan

**Nos Fercher 19 Tachwedd 2025**
6.30 yh

*Croeso cynnes i bawb*

# Gair neu ddau

**John Pritchard**

## Y Tafod

"Pam ddeudis i hynny?" Yn rhy fynych o lawer, dyna f'ymateb wedi i mi ddeud rhywbeth mwy annoeth nag arfer. "Pam na fyddwn wedi deud fel arall? Neu wedi cau fy ngheg yn llwyr!" Mae'n debyg bod y mwyafrif ohonom wedi ymateb felly rywbryd neu'i gilydd.

Ond nid pawb! Doethinebu (yn ôl ei arfer) oedd Donald Trump yn ddiweddar. Do, mi glywais waeth ganddo. Llawer gwaeth a deud y gwir. A llawer gwaith hefyd. Doethinebu ynghylch pethau na ŵyr unrhyw beth amdanyn nhw. Wedi gwneud un datganiad eithafol a di-sail, mi ofynnodd i Ysgrifennydd Iechyd ei Lywodraeth, Robert F Kennedy Jr, "Ydi'r hyn ddeudis i rŵan yn gywir tybed?" A phan awgrymwyd iddo (yn ddigon cynnil a phetrusgar!) nad ydoedd, ei ymateb oedd, "Mae'n rhaid i Bobby wylio be mae o'n ei ddeud. Ond does dim rhaid i mi wneud hynny!" A chan anwybyddu pob tystiolaeth wyddonol gadarn, prysurodd i roi cyfarwyddiadau meddygol seiliedig ar ddim byd mwy na "dyma dwi'n ei deimlo". Rhywsut, roedd yr un funud fach hon yn crynhoi'r cyfan am yr Arlywydd: dydi o'n poeni dim am gywirdeb na geirwiredd unrhyw beth a ddywed. Mae'n deud beth bynnag ddaw i'w feddwl ar y pryd, heb ystyried am un eiliad ganlyniadau ei eiriau ffôl a chamarweiniol a chelwyddog, na'u heffaith ar ddim na neb arall.

Dyw'r penrhyddid peryglus a chreulon hwnnw ddim yn eiddo i bawb, diolch am hynny. Neu o leiaf dyw'r mwyafrif o bobl wâr ddim yn dewis ei arfer am eu bod yn sylweddoli'r drwg y gall eu geiriau ei wneud. Yn ei lythyr yn y Testament Newydd, dywed Iago, 'Ystyriwch fel y mae gwreichionen fechan yn gallu rhoi coedwig fawr ar dân' (Iago 3:5). Sôn am ein geiriau y mae Iago. Mae'n mynd ymlaen i ddweud. 'Ond nid oes neb sy'n gallu rheoli'r tafod. Drwg diorffwys yw, yn llawn o wenwyn marwol. Â'r tafod yr ydym yn bendithio'r Arglwydd a'r Tad; â'r tafod hefyd yr ydym yn melltithio'r rhai a luniwyd ar ddelw Duw.'

Rai blynyddoedd yn ôl, pan ofynnwyd i Mr Trump beth oedd ei hoff adnod o'r Beibl, mi fethodd ag awgrymu'r un. Mynnodd fod y Beibl yn llawer rhy bersonol i neb fedru gwneud peth felly! Ond mi awgrymodd mewn cyfweliad diweddarach mai'r adnod sy'n sôn am 'lygad am lygad' yw ei ffefryn, heb sylweddoli bod Iesu Grist wedi dweud, 'Ond rwyf fi'n dweud wrthych ... "Os bydd rhywun yn dy daro ar dy foch dde, tro'r llall ato hefyd"' (Mathew 5:39). Carwn awgrymu i'r Arlywydd y byddai o fudd iddo fo – ac i bawb ohonom o ran hynny – gofio geiriau Iago: 'A thân yw'r tafod; byd o anghyfiawnder ydyw, wedi ei osod ymhlith ein haelodau, yn halogi'r corff i gyd' (3:6). Mewn geiriau eraill, mae geiriau'n medru gwneud mawr ddrwg.

Mae Iago yn ein hatgoffa y gall effaith geiriau fod yn dda neu'n ddrwg: 'O'r un genau y mae bendith a melltith yn dod' (3:10). Ac o gofio'r hyn a ddywed am y tafod yn 'bendithio'r Arglwydd a'r Tad', mi fedrwn yn Nhymor y Diolchgarwch annog ein gilydd i'w ddefnyddio i wneud hynny o'r newydd. Bendithio'r Arglwydd trwy gyffesu iddo ein hannheilyngdod, diolch am ei ddaioni, a'i foli am haelioni ei roddion tymhorol. Ac ar ben hynny hefyd, tystio yng ngŵydd eraill i'w gariad a'i ras sydd mor amlwg nid yn unig yn ei fendithion materol ond yn fwy felly yn ei fendithion ysbrydol trwy ei Fab Iesu Grist.

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

CANOLFAN CEFNFAES

## Gyrfa Chwist

Hydref 28
Tachwedd 11 a 25

am 6.45yh.
Croeso i bawb

## Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

**Nos Wener, 14 Tachwedd 2025**
**Am 6.00yh**
(Drysau ar agor am 5.45yh)
**yn Neuadd Ogwen**

*Seremoni'r Orsedd, Cystadlaethau'r Corau Unawdau Lleisiol ac Offerynnol a Chystadlaethau i Ysgolion Uwchradd*

Mynediad: £4.00 (Oedolion)
£1.00 (Plant)

**Sadwrn, 15 Tachwedd 2025**
Dechrau am 10.00 yb
**yn Ysgol Dyffryn Ogwen**

*Gwledd o Gystadlaethau Cynradd: Canu, Llefaru, Offerynnol, Dawns, Celf a Chrefft*

Mynediad: £3.00 (Oedolion)
£1.00 (Plant)

## Cyfarfod Blynyddol LLAIS OGWAN

yn Festri Capel Jerusalem, Bethesda, am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Tachwedd 18fed

Croeso i bawb

## Clwb Coffi Talybont

FESTRI BETHLEHEM

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

Hydref 29
Tachwedd 10 a 24

Croeso cynnes i bawb

## GIGS NEUADD OGWEN

25/10 – Cerys Hafana
31/10 – Gong
www.neuaddogwen.com

FESTRI JERUSALEM

## Bore Coffi Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Sadwrn, Tachwedd 1af
10.00 – 12.00yb
Mynediad: £1.00

YMUNWCH.
ARCHEBWCH.
MYND.

WWW.TRYDANI.ORG

- £2 YR AWR
- 16C Y FILLTIR
- GYDA CHAP O £30 Y DYDD.

SESIYNAU CYFARWYDDO AR GAEL I AELODAU NEWYDD

CAR GER Y LLYFRGELL CYMUNEDOL DYFFRYN OGWEN

TrydaNi

FESTRI CARMEL
LLANLLECHID

## Te Bach

Pnawn Llun, 20 Hydref
2.30 – 4.00yp

Croeso cynnes i bawb

# Partneriaeth Ogwen

**Cynllun Rhannu Gwisgoedd Ysgol yn Helpu Teuluoedd Lleol Arbed Arian a Charbon**

Llyfrgell y Petha Dyffryn Ogwen wedi dosbarthu dros 450 o eitemau dillad i deuluoedd lleol

Hoffai Llyfrgell y Petha a Phartneriaeth Ogwen ddiolch i deuluoedd ac ysgolion Dyffryn Ogwen am gefnogi'r cynllun Rhannu Gwisgoedd Ysgol eto eleni. Bwriad y cynllun yw helpu teuluoedd lleol a lleihau gwastraff tecstilau, ac mae'r fenter wedi gweld cannoedd o wisgoedd ysgol ail-law yn dod o hyd i gartrefi newydd – heb unrhyw gost i deuluoedd.

Gweithiodd ein Swyddog Llyfrgell y Pethau, Becca Hughes, efo ysgolion lleol i gasglu a threfnu cannoedd o wisgoedd ysgol. Dros yr haf, cynhaliwyd deg digwyddiad galw i mewn yn Llyfrgell Gymunedol Dyffryn Ogwen, lle derbyniodd 48 o deuluoedd lleol:

171 o siwmperi, cardiganau a hwdis
118 o grysau polo
67 o drowsus, siorts, leggins a theits
53 o sgertiau a ffrogiau




"Mae wedi bod yn ymateb anhygoel," meddai Becca Hughes, Partneriaeth Ogwen. "Fel rhiant, dwi'n gwybod y straen ychwanegol y gall cael gwisgoedd ysgol newydd ei roi ar deuluoedd bob blwyddyn. Mae wedi bod yn wych gallu cefnogi teuluoedd lleol a gweithio gydag ysgolion nid yn unig i arbed arian, ond hefyd i helpu i wneud effaith amgylcheddol gadarnhaol trwy arbed dillad rhag mynd i safleoedd tirlenwi."




Nid yw'r prosiect yn dod i ben rŵan bod y flwyddyn academaidd wedi dechrau! Bydd y gwisgoedd dros ben yn cael eu dychwelyd i'r ysgolion fel y gall rhannu'r gwisgoedd barhau drwy gydol y flwyddyn. Bydd Becca yn gweithio gyda chynghorau ysgolion i osod silffoedd yn yr ysgolion a rhoi trefn mewn lle i sicrhau bod casglu a dosbarthu gwisgoedd yn digwydd bob tymor.

"Mae Ysgol Pen-y-Bryn yn falch o fod yn rhan o'r cynllun rhannu gwisgoedd ysgol," meddai Llinos Morgan-Jones, Dirprwy Ysgol Pen-y-Bryn. "Mae'n ffordd wych o hyrwyddo cynaliadwyedd a sicrhau nad oes unrhyw blentyn yn cael ei adael heb fynediad at wisg ysgol addas."

Mae'r prosiect hwn wedi bod yn bosibl diolch i Gronfa'r Economi Gylchol a Menter Môn.

**Y Gofod Gwneud**

Digwyddiadau hanner tymor i deuluoedd

Dydd Mawrth 28 Hydref o 10yb i 2yh - Cerfio pwmpenni gydag offer pŵer! Dewch i baratoi at Galan Gaeaf wrth ddefnyddio offer Llyfrgell y Petha i gerfio pwmpen eich hunan! Croeso i chi ddod â phwmpen, neu bydd hi'n bosib prynu un ar y diwrnod. Rhaid archebu lle - gofod@ogwen.org

Dydd Iau 30 Hydref o 10yb i 1yh - Bydd Jen Temple Morris yn cynnal gweithgareddau crefft addas i deuluoedd yn cynnwys creu pwmpen allan o hen siwmper ac addurno pwmpenni efo decopage. Rhaid archebu lle - gofod@ogwen.org

**GwyrddNi - Hydref**

Dros y mis nesaf, mae GwyrddNi, y mudiad gweithredu hinsawdd gymunedol, a Phartneriaeth Ogwen yn darparu digwyddiadau i'n hail-gysylltu ni hefo bwyd.

Mae eplesu yn ddull hynafol o gadw bwyd: peidiwch â methu cyfle i ddysgu sut i wneud kimchi (bwyd o Gorea) ar y 5ed o Hydref, neu sut i baratoi, cadw a phrosesu garlleg ar y 26ain. Bydd y ddau weithdy yng Nghanolfan Cefnfaes o 2:30-5yh hefo Claire Mace yn arwain.

Ar y 12fed, bydd sesiwn gwasgu afalau yn Llys Dafydd o 10yb tan 3yh - mae'n siŵr o fod yn hwyl i bawb! Bydd Judith Kaufmann o Afallon yn arwain y sesiwn. Dewch ac afalau a photeli eich hunain!

Ydych chi wedi bod yng Ngerddi Ffrancon a gweld y gwaith gwych mae gwirfoddolwyr wedi bod yn ei wneud yn tyfu bwyd lleol? Mae cyfle i ymuno â nhw bob Dydd Mawrth o 1-3yh neu Ddydd Sul o 3-6yh os ydych chi'n ffansi rhoi eich dwylo yn y pridd.

Mae grŵp bach hefyd wedi bod yn arbrofi hefo tyfu planhigion ar gyfer creu inciau naturiol, a bydd gweithdy Creu Inciau Naturiol hefo Caroline Schofield ar 25ain o Hydref, eto yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda, o 11yb tan 4:30yh.

Os oes yn well gennych roi cyfle ar ysgrifennu creadigol, mae dau gyfle i chi: mae Grŵp Sgwennu Diosg yn cyfarfod yn rheolaidd i ganfod ysbrydoliaeth ac ehangu eu gorwelion. Bydd eu sesiwn nesaf ar yr 22ain o Hydref o 10yb-12. Hefyd ar y 19eg bydd gweithdy ysgrifennu creadigol hefo Clare Potter, yn cychwyn am 11yb hefo taith gerdded fach i Barc Meurig i ddysgu am y mwsog hefo Emily Meileur a chinio ysgafn cyn i'r gweithdy barhau tan 3yh. Unwaith eto, cyfarfod yng Nghanolfan Cefnfaes.

Mae angen llogi lle ar gyfer y gweithdai ysgrifennu, inciau ac eplesu - cysylltwch hefo Chris (chris@ogwen.org / 07766 793 945).

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
UNIPART CAR CARE CENTRE
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

Eisiau dechrau busnes?
CREU CARDIAU CYFARCH
Eich holl anghenion i greu stiwdio.
Cardiau, amlenni, offer o bob math i greu'r addurno a llawer mwy.
*Mwy o wybodaeth - 07745 430049*
(Cardiau Maes Melyn gynt)

# YSGOL TREGARTH

**Croeso**
Croeso cynnes i bawb yn ôl i'r ysgol ar gychwyn blwyddyn arall. Rydym yn estyn croeso arbennig i'r plant sydd wedi cychwyn yn y dosbarth meithrin yn ogystal â nifer o blant sydd wedi ymuno â'r ysgol i amrywiol flynyddoedd. Mae'n braf cael eu croesawu a'u cael yn rhan o deulu'r ysgol.

**Pêl-droed**
Bu criw o blant Blwyddyn 5 a 6 draw yn Nhreborth i gystadlu yn nhwrnamaint pêl-droed cymysg yr Urdd ar y 25ain o Fedi. Roeddem yn ffodus iawn o allu mynd â 2 dîm i'r gystadleuaeth, gyda'r ddau dîm yn cystadlu yn wych o fewn eu grwpiau. Roedd hi'n ddiwrnod llawn hwyl i'r plant, gyda phob un ohonynt wedi cynrychioli'r ysgol mewn ffordd barchus, gystadleuol a chyfeillgar. Rydym yn falch iawn o bob un ohonynt am gynrychioli'r ysgol yn wych. Hoffwn ddiolch i'r Urdd am drefnu cystadleuaeth lwyddiannus eto eleni ac am ddiwrnod gwych i bawb.

**Makaton**
Cafodd dosbarthiadau'r dysgu sylfaen gymryd rhan mewn sesiwn blasu Makaton gan 'Arwyddo a chân gyda Ceri a Siân' yn ddiweddar. Roedd pawb wedi mwynhau'r sesiwn a chael cyfle i ddysgu sgil newydd drwy ganu. Diolch yn fawr iawn i Byd Bach am drefnu'r digwyddiad. Roedd pawb wedi llwyr fwynhau.

**Ffair Nadolig – rhag rybudd**
Byddwn yn cynnal Ffair Nadolig yn neuadd yr ysgol ddydd Mawrth Rhagfyr 2il rhwng 3:00 a 6:00. Bydd y digwyddiad cymunedol hwyliog hwn yn cynnwys stondinau, gweithgareddau ac adloniant tymhorol, a byddem wrth ein boddau yn gwahodd busnesau lleol i gymryd rhan. Mae modd llogi bwrdd am £15 yr un gan roi cyfle i chi arddangos a gwerthu eich cynnyrch i deuluoedd lleol. Cysylltwch gyda'r ysgol (01248 600735) os oes gennych ddiddordeb mewn llogi bwrdd, Byddem yn falch iawn o glywed gennych.







## Ymweliad

Bu plant Blwyddyn 5 a 6 Dosbarth yr Elen ar daith arbennig iawn yr wythnos hon wrth iddynt ymweld ag Amgueddfa Lloyd George fel rhan o'u thema gyffrous 'Y Peiriant Amser'.

Cafodd y plant gyfle unigryw i gamu'n ôl i'r Oes Fictoria, gan wisgo dillad o'r cyfnod a phrofi sut oedd bywyd mewn ysgol Fictoraidd. Wedi iddynt eistedd mewn ystafell ddosbarth o'r oes honno, bu'n rhaid iddynt ddilyn rheolau llym y cyfnod a dysgu mewn ffordd hollol wahanol i'r hyn maen nhw'n gyfarwydd ag ef heddiw!

Yn ogystal, aeth y plant ar daith o gwmpas cartref plentyndod David Lloyd George, gan ddysgu am ei fywyd cynnar a'r amodau byw yn ystod y 19eg ganrif. Roedd yn agoriad llygad a chyfle i werthfawrogi'r newid dros amser.

Roedd y diwrnod yn llawn hwyl, chwerthin, a dysgu diddorol, gyda'r plant yn ymddangos yn frwdfrydig ac yn chwilfrydig drwy gydol y daith.

Diolch yn fawr i staff yr amgueddfa am y croeso cynnes a'r profiad cofiadwy. Heb os, bydd y daith hon yn sbarduno llawer mwy o ddysgu a thrafod yn y dosbarth dros yr wythnosau nesaf!




**C.L. JONES**

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

# YSGOLION ABERCASEG A PHEN-Y-BRYN

### Croeso
Braf iawn yw cael croesawu pob plentyn yn ôl i'r ysgol. Bellach mae pawb wedi setlo'n dda yn eu dosbarthiadau newydd. Rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn brysur, yn llawn gweithgareddau a phrofiadau cyfoethog, er mwyn sicrhau cyfle i bob plentyn ffynnu. Cofiwch gadw'ch llygaid ar agor i weld beth fydd y plant wedi bod yn ei wneud dros y flwyddyn sydd i ddod!



### Diwrnod Owain Glyndŵr – ymweliad Abercaseg â Phenybryn
Hyfryd oedd croesawu disgyblion Blwyddyn 2 Abercaseg atom i ddathlu Diwrnod Owain Glyndŵr. Cafwyd cyflwyniad arbennig gan Ddosbarth Glyder a'r cyfle i gymryd rhan mewn llu o weithgareddau a drefnwyd gan y plant – addurno bisgedi, dylunio baner, gemau bwrdd a chwarae rôl. Yn ogystal, cawsom wasanaeth ysgol gyfan fel bod pawb yn dysgu am yr arwr pwysig yma.

### Caerdydd
Aeth plant Blwyddyn 6 i Gaerdydd am dri diwrnod ar ddiwedd mis Medi. Cafwyd profiadau amrywiol ac arbennig, gan gynnwys ymweliadau â'r Amgueddfa Genedlaethol, Y Pwll Mawr, taith ar hyd y bae, y Senedd, Stadiwm Principality a llawer mwy. Cawson nhw amser gwerth chweil, ac yn sicr cewch ddarllen mwy o'u hanes yn y rhifyn nesaf o *Llais Ogwan*, unwaith y byddent wedi cael cyfle i orffwys ar ôl yr holl anturiaethau niferus!

### Ethol Cyngor Ysgol
Llongyfarchiadau enfawr i Gyngor Ysgol 2025/2026! Rydym yn edrych ymlaen i weld y plant yn gwireddu eu syniadau er mwyn gwella a datblygu'r ysgol a'r gymuned. Llongyfarchiadau hefyd i aelodau newydd y 'Sgwad Syniadau' yn Abercaseg. Mae'r criw yn edrych ymlaen yn ofnadwy at gydweithio â Chyngor Ysgol Pen y bryn.

### Pêl-droed yr Urdd
Hoffem ddymuno pob lwc i dîm Blwyddyn 5 a 6 sy'n mynd i gystadlu yng nghystadleuaeth Pêl-droed yr Urdd ym Mangor. Ewch amdani, blant – sgoriwch ddigon o goliau a chofiwch fwynhau'r profiad!

### Paid Cyffwrdd, Dweud
Cafwyd fore addysgiadol llawn hwyl pan ymwelodd criw 'Paid Cyffwrdd, Dweud' acw. Roedd yr holl blant wedi gwrando'n arbennig ac i gyd yn gallu ateb y cwestiynau pwysig ar ddiwedd y sesiwn am bwysigrwydd peidio â chyffwrdd unrhyw fath o foddion, chwistrelli na chwaith unrhyw adnoddau glanhau, ond yn hytrach i ddweud wrth oedolyn. Neges bwysig iawn, da iawn pawb am wrando'n wych.

### Garddio
Mae criw Abercaseg wedi mynd syth iddi yn yr ardd – tynnu afalau oddi ar y coed, chwynnu, plannu. Mae pawb yn edrych ymlaen yn ofnadwy i weld effaith eu gwaith drwy gydol y flwyddyn.



# Glasinfryn a Chaerhun

### Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Jocelyn a Mike Bowen, Tyddyn Llywelyn, 8 Waen Wen ar ddod yn hen nain a thaid i Aaliyah-Mae, merch i'w hwyres Hannah a anwyd yn Pontefract ar 14 Awst.

### Dymuniadau Gorau
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Gwyneth Jones, Y Bwthyn, Ffordd Gwyndy, Penrhosgarnedd (gynt o Waen Wen) sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Mae Gwyneth ac Idwal yn derbyn y *Llais* bob mis.

### Bingo
Bydd y Bingo Bach yn ail-ddechrau wedi'r haf ar 3 Hydref gyda'r elw yn mynd at y Ganolfan. Gobeithir cynnal Bingo Calan Gaeaf ar 31 Hydref am 7yh yn y Ganolfan. Dowch draw am noson o hwyl!

### Cylch Glasinfryn
Braf oedd croesawu cynifer i gyfarfod y Cylch ar 10 Medi yn y Ganolfan. Y siaradwraig wâdd oedd Lieneke Van der Veen a'i gŵr Victor, y ddau yn wreiddiol o'r Iseldiroedd



ond wedi ymgartrefu ym Mhontrug ers sawl blwyddyn bellach. Cafodd ei hyfforddiant mewn trefnu blodau yn yr Iseldiroedd, Gwlad Belg a'r Almaen. Pan symudodd i Gymru fe ddechreuodd fusnes yn arbenigo mewn blodau ar gyfer priodasau. Dangosodd luniau o'r tŷ fferm ble mae hi'n byw, y caeau gydag afon fach yn rhedeg drwyddynt fel yr oedd pan symudont i mewn ac yna fel y mae'r lle heddiw wedi iddynt weithio'n galed i wella ansawdd y pridd a datblygu gardd lysiau a llawer o blanhigion a choed addurnol mae hi yn eu defnyddio i wneud ei gosodiadau blodau. Dangosodd hefyd luniau o'i threfniannau, un arbennig iawn pryd enillodd Fedal Aur yn Sioe Flodau Chelsea (RHS).

Wedi'r lluniau, arddangosodd Lieneke dri trefniant blodau hyfryd oedd yn defnyddio eitemau syml oedd ar gael yn y cartref a rhai oedd hi wedi eu gwneud ei hun. Yr oedd y tri gosodiad yn werth eu gweld a bu i dair aelod lwcus, sef Kath, Barbara a Margaret eu hennill yn y raffl.

Diolchodd Jocelyn i Lieneke am bnawn hynod ddifyr ac addysgiadol. Carys a Marian oedd yn gyfrifol am y te.

Mis nesaf daw Steve Ransome o'r YNGG (NWWT) i roi sgwrs ar eiddo'r Ymddiriedolaeth yn Llyn Celanedd, Aberogwen. Ar 12 Tachwedd bydd Cynrig Hughes, Rallt, Pentir yn dod i sgwrsio am gysylltiadau lleol â Streic Chwarel y Penrhyn 1900-03.

Croeso cynnes iawn i chwi ymuno yn y Ganolfan am 2yp.

# O'R CYNGHORAU

## CYNGOR CYMUNED LLANDYGÁI

**Cronfa Gwynedd Ni: Prosiect Celf Cymunedol**
Mae'r Cyngor Cymuned yn hynod falch o gyhoeddi ei fod wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn arian gan Gronfa Gwynedd Ni. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiect celf cymunedol gyda disgyblion Ysgol Bodfeurig.

**Grant menter gelf CARN**
Mae pryderon wedi cael eu codi am gyflymder cerbydau ar Ffordd Sling, yn enwedig ers i'r ffordd gael wyneb newydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, bydd CARN, menter gelf o Gaernarfon, yn cynnal gweithdai gyda'r plant i greu arwyddion 'araf' i'w gosod yn yr ardd gymunedol ger y lôn. Bydd y grant hefyd yn cyllido meinciau, byrddau picnic, a theganau newydd ar gyfer yr ardd gymunedol, sydd ar gael i bawb yn y gymuned.

**Sedd Wag ar y Cyngor**
Oes gennych chi ddiddordeb mewn gwneud gwahaniaeth yn eich cymuned leol? Mae Cyngor Cymuned Llandygái yn chwilio am gynghorydd newydd i lenwi sedd wag yn yr ardal.

Mae'r rôl hon yn gyfle wych i weithio gyda chynrychiolwyr cymuned eraill i helpu i benderfynu ar faterion lleol ac i fod yn llais ar gyfer eich cymdogaeth. Mae'r Cyngor yn gweithio'n galed i wella ansawdd bywyd yn Llandygái, gan ymdrin â phynciau fel cyllid, cynllunio ac amgylchedd yr ardal. Mae'r Cyngor Cymuned yn croesawu dysgwyr y Gymraeg.

Mae gennym eisoes gynrychiolwyr o Fynydd Llandygái, St Ann's a Thregarth, ond rydym yn awyddus i gael cynrychiolydd i bentref Llandygái ei hun.

Os ydych chi'n un sy'n mwynhau gweithio fel rhan o dîm ac sydd ag awydd i wneud gwahaniaeth, rydym yn eich annog i gysylltu. Rydym yn cyfarfod ar yr trydydd dydd Iau bob mis heblaw am Awst a Rhagfyr.

I gael mwy o wybodaeth neu i fynegi diddordeb, cysylltwch â'r Clerc: cyngorllandygai@ogwen.org

### CEISIADAU AM NAWDD ARIANNOL

## Hysbysiad Pwysig

Mae **Cyngor Cymuned Llandygái** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/ Mudiadau lleol.

Cysylltwch am ffurflen gais, a bydd angen ei dychwelyd erbyn **31 Rhagfyr 2025**.

**Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:**
Hannah Mefin
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorllandygai@ogwen.org

## CYNGOR CYMUNED BETHESDA

**Noson Wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen**
Llongyfarchiadau i Leusa Morris ac Owain Foulkes am dderbyn Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda yn y noson wobrwyo nos Iau, Med 11eg, a phob llwyddiant i'r ddau yn y dyfodol. Dymunwn yn dda iawn hefyd i bennaeth newydd yr ysgol sef Mrs Kelly Morgan. Diolch a phob dymuniad da i Mr Dylan Davies am ei waith ers cynifer o flynyddoedd yn yr ysgol.

**Gwahodd Zip World: Cynllun Cronfa Gymunedol Zip World**
Bu cyfres o gyfarfodydd rhwng Zip World a rhanddeiliaid y gymuned yn safle Zip World Chwarel y Penrhyn dros y gwanwyn a'r haf i drafod y cynnig ar gyfer cronfa gymunedol. Mae'r cyngor am estyn gwahoddiad i gynrychiolydd o Zip World ddod i'r cyfarfod nesaf o'r cyngor i drafod y cynlluniau ymhellach.

**Cysgodfan Maes Bleddyn**
Rydym yn falch o gyhoeddi bod y Cyngor Cymuned wedi llwyddo i dderbyn cyllid i brynu cysgodfan bws ar gyfer Maes Bleddyn. Diolch yn fawr i'r adran adfywio Cyngor Gwynedd ac i gronfa Gwynedd Ni. Bydd yn cael ei osod ar ochr Maes Bleddyn sef y ffordd tuag at Fangor. Newyddion da ar gyfer y tymor sydd i ddod.

**Biniau Ailgylchu y Stryd Fawr**
Newyddion da - bydd biniau ailgylchu newydd ar y Stryd Fawr. Rydym hefyd mewn trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd am gyllid pellach posib i ddarparu biniau mewn rhannau eraill o Fethesda.

### CEISIADAU AM NAWDD ARIANNOL

## Hysbysiad Pwysig

Mae **Cyngor Cymuned Bethesda** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/ Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais, anfonwch eich mantolen ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc erbyn **31 Rhagfyr 2025**

**Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:**
Hannah Mefin
Cyngor Cymuned Bethesda,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorbethesda@ogwen.org

## CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID

**Adroddiad Gorffennaf 2025**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor Cymuned ar Nos Fercher 23fed o Orffennaf.

Cafwyd cyflwyniad buddiol gyda Trystan Edwards o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am gynlluniau Bwthyn Ogwen. Hoffem ddiolch iddo am ei amser.

Dim cyfarfod mis Awst.

**Adroddiad Medi 2025**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi ar Nos Iau yr 11fed o Fedi. Hoffem fynegi ein siom gyda'r problemau parhaus gyda thyllau yn y ffordd o fewn y plwyf. Byddwn yn parhau i ddod â'r rhain i sylw Cyngor Gwynedd.

Rydym yn falch o fod wedi gallu cefnogi'r ymgyrch i newid enw'r warchodfa natur yn Aberogwen o 'Spinnies' i 'Llyn Celanedd'.

Hoffem ddiolch i drefnwyr Ras Cefn y Ddraig am eu rhodd hael ar gyfer prosiectau lleol.

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Cefais fy atgoffa y noson o'r blaen am sut y byddem yn dweud ers talwm ein bod yn gorfod mynd i lawr i'r ysbyty i gael '**x-drê**'. Y 'd' yn ymwthio i mewn fel mae'n wneud yn 'Pendryn' (Penrhyn) a 'Hendri (Henry).

Rwyf wedi crybwyll safle 'Iaith' sydd ar y gweplyfr. Mae'n ddifyr iawn ac rwyf wedi gweld pobl o'r dyffryn yn cyfrannu. Un ohonynt oedd '**rhoi caead ar ei bisar o**', sef cau ceg rhywun pan fyddwch wedi cael digon arno. Hefyd wedi cael ei glywed mae '**rhoi caead ar ei hopran**', ac mae clywed 'cau dy hop' yn gyfarwydd i mi.

Un arall difyr oedd y gair '**budur**', nid yn yr ystyr bod rhywun ddim yn lân ond fel hyn – "Rhyw fudur ddilyn pêl-droed oedd o." "Rhyw fudur fynd i'r capel oedd hi." Rhyw orchwyl neu weithred na fyddwch ond yn ei hanner gefnogi, neu roi cefnogaeth lugoer. Un arall ydy "Rhyw fudur berthyn oeddan nhw" sef perthyn o bell.

## Croen

Mae yna lwyth o ddywediadau yn ymwneud â'r croen.

'**yn wlyb at eu crwyn'**: "Roedd hi'n wlyb at ei chroen ar ôl y gawod drom 'na."
'**mynd dan groen**': "Mae hi'n mynd dan 'y 'nghroen i. Mae hi'n mynd ar fy nerfa' i."
Mae ystyr arall i'r dywediad, sef actor yn llwyddo i ddod â chymeriad yn fyw mewn drama neu ffilm – "Mi lwyddodd yr actor i fynd dan groen y cymeriad."
'**croen denau'**: cael siom heb fod angen – "Paid â bod mor groen dena'. Sdim isio iti deimlo i'r byw."



"Mae hi'n wlyb at ei chroen."

'**croen gŵydd'**: pan fyddwn ni'n cael teimladau cryf neu deimlo oerni – "Mae ges i groen gŵydd pan wnes i ddigwydd gweld fy hen ffrind ysgol. Doeddwn i ddim wedi ei gweld hi ers gadael ysgol."
'**croen ac asgwrn**' – "Sbia mor dena' ydi o. Dim ond croen ac asgwrn ydi o!"
'**croen ei dîn ar ei dalcen**': rhywun mewn hwyliau gwael ydy hwn, a bod hynny i'w weld yn ei wyneb – "Mae hwyliau drwg arno fo heddiw. Mae croen ei dîn ar ei dalcen."
'**croen ei ddannedd**': cael â chael i lwyddo; dim ond 'ei gwneud hi'. "Dim ond wrth groen ei ddannedd y llwyddodd o i osgoi cael damwain efo'i gar."
'**croen fel eliffant**': dim yn poeni beth sy'n cael ei ddweud amdanoch chi nac am unrhyw anawsterau – "Dydi o'n malio dim. Mae gyno fo groen 'fath ag eliffant."
'**yn iach ei groen**': dim yn mennu ar rywun, gan ei fod o neu hi yn mynd ati i osgoi trafferthion – "Mae hi'n iach ei chroen achos wnaeth hi ddim mentro fel pawb arall."
'**croen iachaf, croen cachgi**': dywediad pan fydd rhywun wedi ymddwyn yn llwfr.

**Cerpyn**. Dilledyn ydy hwn – "Doedd gyno fo ddim cerpyn amdano fo."

**Ciddiad**. Dyma ddwedwn ni am 'cuddio'. Bydd plant yn gofyn "Be am chwara cuddiad?"

**Bydd ddistaw**. Ffordd arall o ddweud 'Taw' – "Bydd ddistaw, da ti, rhag i rywun dy glywed di."
**Siarad o'r frest/ gweddïo o'r frest**. Siarad yn gyhoeddus heb bwt o bapur ydy hyn – siarad o'r galon. Bydd gweddïo o'r frest yn aml mewn gwasanaeth yn y capel a'r eglwys. Erstalwm byddai ambell flaenor mwy huawdl na'i gilydd yn medru gweddïo o'r frest yn rymus ac effeithiol iawn.
**Pilsan / pils**. Dyma oedden ni'n arfer ei ddweud cyn i 'tabledan' a 'tabledi' ddod yn fwy cyffredin.
**Dim nes i'r lan**. Methu gorffen rhywbeth ydy hyn, hynny ydy 'methu dwâd i ben â hi' – "Dw i'n gneud 'y ngora i roi trefn ar yr ardd 'ma ond dw i ddim nes i'r lan. Mae'r chwyn 'ma'n dŵad bob gafal!"
**Pigiad**. Rydan ni'n cael pigiad gan wenyn meirch neu bry' llwyd, a chael pigiad nodwydd gan feddyg neu nyrs.
**Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau**. Llinell gyntaf emyn Dafydd William yw hon, a byddai'n cael ei defnyddio pan fyddai rhywun mewn amgylchiadau anodd oherwydd rhyw sefyllfa ofnadwy, er enghraifft gwaeledd difrifol neu farwolaeth mewn teulu – "Druan â nhw. Maen nhw yn y dyfroedd mawr a'r tonnau."
**ar binsh**. Byddwn yn dweud hyn pan fyddwn yn bodloni i dderbyn rhywbeth er nad ydy o'r hyn rydan ni isio mewn gwirionedd – "Ddim dyma'r union be' dw i isio ond mi neith ar binsh. Mi neith o'r tro am rŵan,"
**Tegan/teganau/tegins**. Hyn ddywedid am addurniadau '*ornament(s)*'yn y tŷ – "Mae 'na ormod o degana' ar y silff ben tân 'na"; "Mae isio llnau'r iâr degan 'na sy'n y cwpwr' gwydyr."
**Trybola**. "Roedd yr hogia'n drybola o fwd ar ôl y gêm rygbi."
Diolch eto i Sandra Howells. Caf gyfle i drafod rhai geiriau y mis nesaf.
Cofiwch anfon gair. Mary Jones, 42 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN 07443047642, maryeds@hotmail.co.uk

# Calendr Llais Ogwan 2026

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2026 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Wasg Carreg Gwalch am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.


Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r Calendr.

Cysylltwch gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr ar werth am £5 yn y siopau hyn:

- Siop Ogwen, Bethesda
- Spar, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Tesco, Bethesda
- Post Rachub
- Siop Na Nog, Caernarfon
- Palas Print, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

Gellir danfon y Calendr trwy'r post am bris ychwanegol. Ymholiadau archebion at Now Jones: 01248 600184 / post@llaisogwan.com



# YSGOL LLANLLECHID

**Ymgartrefu**
Croeso i blant newydd yn y dosbarth Meithrin. Mae pawb wedi bod yn brysur yn crefftio, canu a chael hwyl gyda'i gilydd, tra'n creu ffrindiau newydd a dod i adnabod ein gilydd.

**Ymweliad PC Dave a PC Claudia**
Yr wythnos hon mae Blwyddyn 1 wedi cael ymweliad gan PC Dave a PC Claudia yn gysylltiedig gyda'i thema 'Pobl sydd yn helpu'. Roedd y plant wrth eu bodd yn eistedd yn y car a chlywed sŵn y seiren. Diolch yn fawr, PC Dave a PC Claudia!

**Pêl-droed yr Urdd**
Llongyfarchiadau fil i'n timau pêl-droed cymysg ar eu perfformiadau yng nghystadleuaeth pêl-droed yr Urdd yn Nhreborth yn ddiweddar. Bu i bawb gystadlu'n frwdfrydig dros ben, gan berfformio i safon uchel iawn yn ystod y dydd. Llwyddodd un o'r timau i ddod i'r brig yn eu grŵp, gan sgorio 16 gôl heb ildio o gwbl – mae hynny'n dipyn o gamp! Colli ar giciau o'r smotyn yn rownd yr 8 olaf oedd eu hanes yn anffodus. Diolch yn fawr i'r Urdd am drefnu, ac i'r holl wirfoddolwyr am sicrhau diwrnod llwyddiannus i'r holl chwaraewyr.

**Llyfrgell Bethesda**
Fel rhan o'u thema ar ddeinosoriaid bu cyfle i Flwyddyn 2 ymweld a'r llyfrgell leol. Roedd y plant wrth eu boddau yn chwilota trwy lyfrau gwybodaeth, gwneud lluniau a darllen storïau am ddeinosoriaid. Braf oedd clywed fod ambell un wedi mynd yn ôl i'r llyfrgell i ymaelodi! Diolch yn fawr i Mrs Marian Jones am y croeso.



**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Miss Haf, sydd bellach yn Mrs Owen! Rydym ni i gyd yn Ysgol Llanllechid yn falch iawn drosti ac yn dymuno blynyddoedd hir a hapus o briodas iddi. Mae'n hyfryd gweld cychwyn pennod newydd; rydym yn siŵr y bydd yr un mor llawn cariad, hapusrwydd a chwerthin â'r egni positif y mae'n ei ddod i'r ysgol bob dydd. Wrth gwrs, bydd hi'n cymryd ychydig o amser i ni i gyd gofio defnyddio ei henw newydd – ond 'na fo, byddwn ni'n dod i arfer! Pob bendith i'r dyfodol, Mrs Owen!

**Croeso**
Hoffem estyn croeso cynnes iawn i Mr Adam i dîm Ysgol Llanllechid wrth iddo ymuno â ni fel cymhorthydd newydd. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio ag ef ac rydym yn siŵr y bydd ei frwdfrydedd, ei gefnogaeth a'i agwedd gadarnhaol yn gaffaeliad gwerthfawr i'r ysgol a'r disgyblion. Pob lwc yn dy rôl newydd – croeso i'r teulu!

**Taith Gerdded Leol**
Braf oedd cael manteisio ar y tywydd sych i fynd â disgyblion Blwyddyn 5 a 6 am daith gerdded leol. Wrth i ni ddysgu am newidiadau, fel rhan o'n thema y tymor hwn, buom yn dysgu am hanes ein hysgol a sut mae addysg yn Rachub wedi newid dros y blynyddoedd. Cyn i'n hysgol ni agor, roedd plant Rachub wedi eu gwahanu i dair ysgol, sef yr Ysgol Frytanaidd, Hen Ysgol Rachub, ac Ysgol Cae Chwarel.

Buom yn ymweld â'r ysgolion hyn, ac yn gwerthfawrogi ein hysgol ni, ble mae holl blant yr ardal bellach yn cael eu haddysgu o dan un to yn hapus!

**Y Goedwig**
Mae dosbarthiadau Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn brysur yn astudio thema 'Y Goedwig'. Fel rhan o'r gwaith bu'r plant yn casglu afalau o berllan yr ysgol ac yn coginio cacen sbwng afal. Hefyd, buom yn casglu deunyddiau naturiol a rhai wedi ail-gylchu i greu gwesty bwystfilod.

**Ymddeoliad Hapus**
Hoffem ddiolch o galon i Mrs Davies Jones am ei holl waith caled, ei hymroddiad a'i gofal dros blant Ysgol Llanllechid dros y blynyddoedd. Mae ei hangerdd dros addysg, addysgu drwy brofiadau hwyliog a diddorol, a'i hymroddiad di-baid wedi cael effaith arbennig ar lawer o ddisgyblion.

Yn arbennig, mae ei hangerdd dros y Gymraeg a'i hymrwymiad i sicrhau bod pwysigrwydd yr iaith a'n treftadaeth yn cael ei werthfawrogi ac yn parhau i ffynnu wedi bod yn ysbrydoliaeth i bawb. Roedd hi'n gryf dros bwysigrwydd diogelu'r iaith a'n diwylliant, ac roedd hi'n bencampwraig dros y Gymraeg yn y gymuned leol. Roedd Rachub yn agos iawn at ei chalon.

Bydd ei chyfraniad yn cael ei gofio am flynyddoedd lawer. Dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei hymddeoliad ac ar gyfer y dyfodol. Diolch o galon, Mrs Davies Jones.



**Diolch**
Hoffem estyn ein diolch i Ms Andrea am ei holl waith caled dros y blynyddoedd. Dymunwn bob hapusrwydd a iechyd iddi wrth gymryd y cam nesaf yn ei bywyd. Diolch o galon, Ms Andrea.


J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

JOHN ROBERTS
Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Elwyn Jones & Co
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000)

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Clwb Hanes Rachub**
'Twristiaeth yn Eryri' oedd testun sgwrs yr hanesydd, darlithydd a'r awdur Bob Morris yng nghyfarfod agoriadol tymor newydd Clwb Hanes Rachub. Dangosodd, drwy ddangos toreth o sleidiau, beth oedd patrwm tyfiant twristiaeth yn Eryri dros y canrifoedd. Y cyfuniad o dirwedd hardd, adeiladau hanesyddol a diwydiannau diddorol oedd yn denu pobl gefnog o bob rhan o Brydain; yn eu plith roedd artistiaid, beirdd a llenorion – a'u gwaith yn cael ei ledaenu drwy wledydd Prydain a thu hwnt. Felly, roedd pobl eisiau gweld testun y tirluniau a'r cerddi drostynt eu hunain, ac roedd y cyfoethocaf yn eu mysg yn gallu fforddio teithio i weld mynyddoedd, rhaeadrau, chwareli, traethau a chestyll a.y.b. Dechreuwyd adeiladu gwestai i'r rhain gan gyflogi nifer o bobol. Roedd gwyddonwyr a botanegwyr wedi darganfod ein mynyddoedd, ac roeddynt hwy angen eu harwain i fannau diarffordd arbennig – felly roedd rhaid manteisio ar wybodaeth y trigolion lleol, a thalu iddyn nhw am eu gwaith. Fel y tyfodd y diwydiant, roedd rhaid cael gwell ffyrdd - yn enwedig mewn rhai rhannau o'r ardal e.e. roedd y ffordd heibio Penmaenmawr mor beryglus, byddai pobl yn cyrraedd Conwy ac yn cymryd cwch i Fangor rhag mentro eu bywydau wrth deithio o gwmpas y maen mawr! Yna, gyda dyfodiad pont Stevenson, a'r trenau, newidiodd y diwydiant ymhellach; erbyn hyn roedd mwy o bobol yn gallu teithio, nid dim ond y rhai mwyaf breintiedig o'r gymdeithas. Cafwyd trên i ben yr Wyddfa, ac adeiladwyd pob math o gytiau ar y copa er mwyn i'r cerddwyr gael aros dros nos! Roedd cymaint o fanylion a gwybodaeth yn y sgwrs hon gan Bob Morris, roedd y gynnulleidfa (dros 40 mewn nifer) wedi eu cyfareddu, - a nifer fawr wedi sylwi nad oedd ganddo damaid o bapur na nodiadau o unrhyw fath! Diolch yn fawr Bob! Sgwrs arbennig!

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf – Hydref 29 – Noson Ffair Llan – darlleniadau gan Mary a Gaynor yn ogystal â'ch atgofion chi!

**Diolch**
Hoffai teulu'r diweddar John Rowland Jones, Awelon, Yr Ynys, ddiolch yn fawr am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled o ŵr, tad a thaid caredig iawn. Diolch am y galwadau ffôn, y llu o gardiau a phob ymweliad. Cafodd bob un eu gwerthfawrogi'n fawr. Diolch hefyd am y rhoddion hael. Derbyniwyd £1,000.00 er cof am John, a rhoddwyd yr arian i'r Uned Gofal Dwys yn Ysbyty Gwynedd, Bangor, lle cafodd y gofal gorau gan y meddygon a'r nyrsys caredig. Hoffem ddiolch i'r Parchg Dafydd Coetmor Williams, y Parchg John Pritchard, ac i Mrs Helen Williams, yr organyddes, am eu cymorth a'u gwasanaeth teimladwy. Diolch i bawb a deithiodd o bell ac agos i'r gwasanaeth yng Nghapel Carmel, ac i'r nifer o aelodau Côr y Penrhyn a ddaeth i gyfoethogi canu hoff emynau John. Diolch hefyd i staff Clwb Rygbi Bethesda am ein croesawu ac am y lluniaeth blasus. Diolch yn fawr, yn ogystal, i Gareth Williams, Trefnwr Angladdau, am ei drefniadau gofalus a thrylwyr.

## Capel Carmel

**Cofion**
Rydan ni'n anfon ein cofion gorau at Gwilym Evans a Charles Doyle sydd heb fod yn teimlo yn dda. Rydan ni'n falch am fod y ddau ohonyn nhw'n teimlo ychydig yn well erbyn hyn. Hefyd, rydan ni'n anfon ein dymuniadau da i Glenys Edwards sydd yng nghartref preswyl Plas Ogwen a phob un sydd yn eu cartrefi eu hunain ac yn teimlo yn ddi-hwyl y dyddiau yma.

**Peintio'r Capel**
Roedd hi'n rhaid i ni drwsio'r ffenestr liw ar flaen y capel ac atgyweirio brig y to yn ogystal â gorffen rhyw fân bethau eraill hefyd. Wedyn, mi gawsom ni beintio wyneb y capel a'r drws, a'r giatiau a'r relings i gyd. Diolch i'r gweithwyr diwyd am eu gwaith a phawb sydd wedi helpu mewn unrhyw ffordd. Mi ddaeth yr arian i dalu am y peintio o gronfa'r Chwiorydd a diolch i'r aelodau a'r cyfeillion am eu rhoddion caredig tuag at y gwaith.

**Clwb Dwylo Prysur**
Roedd hi'n braf croesawu tair newydd yn aelodau o'r Clwb yn ystod mis Medi. Rydan ni'n gwau ar hyn o bryd, yn peintio, ac yn ymarfer ar gyfer y gwasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf.



**Trefn Gwasanaethau**
*am 5:00 yr hwyr*
**Hydref 19eg** – Diolchgarwch
**Hydref 26ain** – Oedfa
**Tachwedd 2il** – Parchedig John Pritchard (cymun)
**Tachwedd 9fed** – Parchedig Alan Spencer
**Tachwedd 16eg** – Parchedig Ron Williams

Clwb Dwylo Prysur, Nos Wener 6:30
Ysgol Sul – 10:30 y bore

***Croeso cynnes i bawb.***

## YSGOL RHIWLAS

**Croeso'n ôl!**
Braf iawn yw croesawu'r disgyblion a'r staff yn ôl i'r ysgol ar gyfer blwyddyn newydd o ddysgu. Croeso arbennig i'r disgyblion newydd sydd yn cychwyn yn y dosbarth Meithrin eleni. Rydym yn edrych ymlaen at eich gweld yn tyfu a datblygu a dod yn rhan o deulu Ysgol Rhiwlas. Yn ystod tymor yr hydref bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 1 yn dysgu am thema'r Gofod, tra bod Cyfnod Allweddol 2 yn dysgu am y cysylltiad rhwng Cymru a Phatagonia.

**Cyngor Ysgol**
Llongyfarchiadau mawr i aelodau newydd y Cyngor Ysgol. Grŵp o ddisgyblion yw Cyngor Ysgol, wedi'u hethol gan eu cyd-ddisgyblion i gynrychioli eu barn a chodi materion gydag uwch-reolwyr a llywodraethwyr yr ysgol. Byddant hefyd yn trafod unrhyw faterion sydd wedi codi, syniadau am sut i wella'r ysgol a threfnu unrhyw ddigwyddiadau. Rydym yn edrych ymlaen i glywed eich syniadau dros y flwyddyn!

**Nofio**
Mae llawer o gynnwrf yn yr ysgol ar foreau Iau .... pam tybed?! Wel, bob bore Iau mae disgyblion blwyddyn 4, 5, a 6 yn mynd am wersi nofio i Ganolfan Byw'n Iach, Bangor. Dros gyfnod o ddeg wythnos byddant yn magu hyder yn y dŵr ac yn datblygu sgiliau nofio.

**Menter Iaith Gwynedd**
Braf iawn oedd croesawu Mei o Fenter Iaith Gwynedd i'r ysgol er mwyn cynnal sesiwn 'gemau buarth' gyda'r disgyblion. Amcan y sesiwn oedd annog y disgyblion i chwarae drwy gyfrwng y Gymraeg. Cwmni nid er elw yw Menter Iaith Gwynedd wedi ei sefydlu yn haf 2023 i hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd.

**Padlfyrddio**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 4, 5, a 6 gyfle i roi cynnig ar badlfyrddio yn ystod ymweliad addysgol â Llyn Padarn. Dan arweiniad hyfforddwyr profiadol yr Urdd, dysgodd y plant sut i gadw eu cydbwysedd, defnyddio'r padl yn gywir, ac – yn bwysicaf oll – mwynhau'r awyr agored mewn ffordd ddiogel a hwyliog. Roedd y plant yn frwdfrydig ac roedd yn wych eu gweld yn magu hyder ac yn cydweithio fel tîm. Mae gweithgareddau fel hyn yn cynnig mwy na dim ond hwyl – maen nhw'n meithrin sgiliau bywyd.

# CHWARAEON

# Bowls Bethesda efo Bys a Bawd



Brynmor Jones sy'n bwrw golwg dros y tymor aeth heibio ar y lawntiau bowlio.

## Egni anhygoel

Bu Brynmor yn eithriadol o brysur eleni. Rhwng cwblhau blynyddoedd o addysgu mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd a Chlwyd, pererindodau hirion i Sir Benfro a Chlawdd Offa, yn ogystal â Chanada fel unigolyn ac fel aelod o Gôr y Penrhyn, mae'n rhyfeddol meddwl o le daeth ei egni a'i frwdfrydedd. Er gwaethaf yr holl alwadau ar ei amser, mae wedi llwyddo i wneud ei ran fel aelod blaenllaw o dimau bowls Bethesda. Yn wir, mae cyfraniad Brynmor wedi bod yn allweddol.

## Tymor Prysur

Mae tymor bowlio 2025 wedi bod yn un bythgofiadwy i Glwb Bowlio Bethesda; tymor eithriadol o brysur ar adegau i'r 5 tim gyda gemau cynghrair rheolaidd ar bedwar diwrnod yr wythnos, yn ogystal â chystadlu mewn nifer o gystadlaethau cwpan.

**Tîm Nos Lun: Capten – Callum Sorfleet**



Uchafbwynt y tymor heb amheuaeth oedd llwyddiant tîm Nos Lun sy'n cystadlu yn Nghynghrair Ynys Môn o dan ofal y capten ifanc, ysbrydoledig Callum Sorfleet. Enillodd Bethesda y gynghrair am y tro cyntaf yn hanes y Clwb. Hefyd enillodd tîm Nos Lun y Cwpan Whitworth am yr ail flwyddyn yn olynol. Felly clod mawr i Callum a holl chwaraewyr tim Nos Lun!!

## Siôn yn arwain yn wych

**Tîm Dydd Sadwrn: Capten – Siôn Guto Roberts**




Mor agos ddaeth y capten Siôn Guto Roberts a'r tîm i wireddu'r freuddwyd o sicrhau dyrchafiad i Adran 'A' Cynghrair Arfordir Gogledd Cymru — NWCBL. Ar ben y tabl am ran helaeth o'r tymor ond yn anffodus yn methu o 1 pwynt yn unig yn y diwedd. Colli 9-3 fu hanes Bethesda yn eu gêm olaf, gartref yn erbyn Dyserth, y tim a oedd yn y 3ydd safle yn y gynghrair.

Mae'n rhaid cydnabod sgiliau a dawn Siôn fel capten ac wrth gwrs ymdrechion arwrol y tîm i gyd. Un cysur ydy'r ffaith bod y tim wedi ennill Tlws Glynne Owen wrth drechu Cricieth yn y rownd derfynol a gynhaliwyd yn Llanfairpwll ar Awst laf.

**Tîm Nos Fercher: Capten Ryan Short**

Cafwyd tymor da iawn yng Nghynghrair Bangor a'r Cylch ar Nos Fercher. Rhoddodd Ryan Short, sy'n chwaraewr o safon uchel, arweiniad bendigedig i'r tim a ddaeth yn 4ydd yn y tabl





ar ddiwedd y tymor. Bu bron i'r fim â chipio Cwpan John Griffiths hefyd ond yn colli'n agos yn y rownd derfynol i dim Llanfairpwll ar lawnt Caernarfon.

**Tîm Nos Fawrth: Capten – Catrin Short**



Hon yw'r gynghrair galetaf os rhywbeth gan fod 6 allan o'r 8 tîm sy'n cystadlu yn chwarae yn Adran A Cynghrair Arfordir Gogledd Cymru - NWCBL ar ddydd Sadwrn. Felly, roedd yn gamp enfawr i'r tîm wella ar eu safle yn y gynghrair o gymharu â llynedd. Dangosodd Ryan Short ei ddawn gan ddiweddu'n 5ed yn y gynghrair. Felly, llongyfarchiadau i Catrin a'r tîm.

**Tîm Dydd Mawrth: Capten – Maldwyn Pritchard.**



Cafodd tîm Maldwyn Pritchard, sef tim Prynhawn Dydd Mawrth, y fraint o gystadlu eleni yn Adran A Cynghrair Gwynedd Seniors. Er holl ymdrechion y dewin ei hun a'i dîm, diweddu ar waelod yr Adran a wnaed ac o ganlyniad disgyn yn ôl i Adran B. Y bwriad meddai'r capten ar gyfer 2026 yw ennill dyrchafiad yn ôl i Adran A.

## Cynghrair y chwaraewyr hŷn

Cystadleuaeth i chwaraewyr 60+ oed yw hon gyda 4 tîm yn cystadlu sef: Gwynedd, Clwyd, Glannau Dyfrdwy a Wrecsam. Cafodd John Roberts a Brynmor Jones o Fethesda eu dewis i chwarae i dîm Gwynedd eleni.

## Tîm Môn Menai

Daeth tîm Môn Menai yn ail yn Adran 4 y Gynghrair uchod. Siôn Guto Roberts, Sam Whitehead, Callum Sorfleet a Ryan Short sydd wedi cynrychioli'r tîm hwn ar wahanol adegau yn ystod y tymor. Mae Tîm Môn Menai yn cynnwys chwaraewyr o glybiau Gwynedd a Môn ac yn cystadlu yn erbyn timau o siroedd Gogledd Lloegr. Da iawn hogia, mae'n fraint ac anrhydedd i gael eich dewis i dîm Môn Menai!

---

## Cystadleuaeth Bowlio Agored Bethesda (Parau)

Cynhaliwyd y gystadleuaeth ar Ddydd Sul Awst 24ain ar lawnt Parc Villa. Unwaith eto diwrnod llwyddiannus iawn gyda dros 30 o barau o bob rhan o Ogledd Cymru yn cystadlu. Roedd y gystadleuaeth hon yn gyfle da i'r Clwb godi arian. Diolch i bawb a gefnogodd ar y diwrnod. Hefyd i swyddogion y Clwb am drefnu'r diwrnod, criw y gegin am ddarparu lluniaeth, y gwerthwyr raffl ac yn arbennig i John Roberts a'r criw am baratoi'r lawnt. Ni allwn anghofio'r cyfraniad gan y noddwyr. Mae'r clwb yn ddiolchgar iawn iddyn nhw i gyd.

## Tarian Clive Llywelyn

Er gwaethaf siomedigaethau'r tymor i'r tîm hŷn, roedd Maldwyn Pritchard, capten poblogaidd y tîm, yn wên o glust i glust ar ddiwedd y tymor bowlio, pan drechodd ei dîm chwaraewyr Llanfairfechan o 6 gêm i 2 i ddod â Tharian Goffa Clive Llywelyn yn ôl i Fethesda. Fel y dywedodd Maldwyn, "Mae hon yn gystadleuaeth sydd wedi cael ei chynnal rhyngom ni a Llanfair ers blynyddoedd."

Ychwanegodd Maldwyn "Mae'n bleser gen i gael croesawu ein cyfeillion atom ym Mharc Villa. Er gwaetha'r siom yn y gynghrair, mae ennill y darian hon yn dod â balchder i'n calonnau ac yn codi ysbryd y tîm."

Ar ran Llanfair, roedd Eleri Lewis yn mwynhau dod i Fethesda. "Rydw i'n edrych ymlaen at gael croesawu Maldwyn a'i dîm i Lanfair y flwyddyn nesa' eto," meddai.




# Clwb Pêl-rwyd Bethesda


Ar ddechrau'r tymor newydd dymuna Nerys Wyn Jones a'r genod ddiolch yn fawr i J. R. Scaffolding am noddi'r tîm dan 12 oed. Bydd y genod yn edrych yn hynod o smart yn eu ffrogiau wrth iddynt chwarae yng Nghyngrair Gogledd Orllewin Cymru. Maent yn gwertfawrogi'r gefnogaeth. Pob hwyl i chi, genod.







# CROESAIR



## AR DRAWS

1 Yr ymdrech i ddal ati, fel planu dau hedyn (6)
5 Un o gelfi'r chwarelwr i hollti (4)
9 Equus Caballus, Du Del ac Arkle efallai (7)
10 Planhigyn persawrus porffor (6)
11 Ai dechra'n daclus a threfnus wneir wrth roi araith (8)
12 Cwpan arian oedd gwobr y côr am ennill, - - - - - - am flwyddyn (2,4)
15 Y dant-y-llew ddaeth yn ddieithryn i forder bach fy mam yn ôl y bardd (6)
18 Magi a Mog yn methu mynd yn unionsyth (4-4)
20 Dyma wneir os cloi i anwesu a chofleidio (6)
22 Diwedd ddoe (7)
23 Gallai fod yn un o nifer o liwiau ar y 'creigiau geirwon' (4)
24 Mae'r siglen wedi torri, gwell gwisgo rhywbeth am y coesau (6)

## I LAWR

2 Swnio fel perfformio unawd yn y bore, ond yn bwriadu'n amgenach (6)
3 Mae'n dysgu sgiliau i eraill lwyddo'n well (8)
4 " - - - - - fy Nuw, - - - - - i'r lan, 'Nenwedig - - - - - lle rwy'n wan" WW (3,2)
6 Fel pe bai 23 Ar Draws yn rhoi bloedd am ddihangfa (4)
7 Eich enw mewn llawysgrifen (6)
8 Stribed o ddaear rhwng dau fôr, fel Panama (6)
13 Dyn anwadal a chwit-chwat (3,5)
14 Ei wneud yn hollol groes i 18 Ar Draws (6)
16 Cynnwys ci poeth neu badell i frecwast (6)
17 Maent yn dwad dan weu sana pan fo'r lleuad yn ola hwiangerdd (6)
19 "Diffaith yw'r paith mewn poethder", medd y cynganeddwr (5)
21 Mae'n sefyll (4)

Atebion erbyn 7fed Tachwedd 2025 fan bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach) i 'Croesair Hydref', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD



**ATEBION CROESAIR MEDI 2025**

**AR DRAWS** 1 Peso, 3 Goglais, 8 Uchafswm, 9 Eiffel, 10 Oscar, 11 Ufudd-dod, 12 Dydd Sul y Pasg, 17 Gwargam, 19 Argae, 21 Rwan A, 22 Adeilad, 23 Dilynodd, 24 Puro

**I LAWR** 1 Peunod, 2 Siarc, 3 Gemau Olympaidd, 4 Gweddu, 5 Anffodus, 6 Sglod A, 7 Estrys, 13 Ymadael, 14 Planed, 15 Agored, 16 Heidio, 18 Grawn, 20 Golau

Dyma'r gwallau ymddangosodd y tro yma: 'pladen' yn lle 'planed' (14 i Lawr), 'salad a' yn lle 'sglod a' (6 i Lawr), 'dilynydd' yn lle 'dilynodd' (23 Ar Draws), 'ostrich' ac 'ostrys' yn hytrach nag 'estrys' (7 i Lawr)

Llongyfarchiadau i'r canlynol anfonodd atebion hollol gywir: Huw Davies, Gerlan; Iona Williams, Llanddulas; Barbara Jones, Talybont; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Rosemary Williams, Dulcie Roberts,Tregarth; Doris Shaw, Ann Morris, Rita Bullock, Bethesda; Judith Hughes, Llangoed; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; John Ffrancon Griffith, Abergele; Wendy Eccles, Llanllechid; Myrddin Williams, Capel Uchaf Clynnog; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Stella Dafis, Rachub

Yr un sy'n derbyn y clod a'r wobr y tro yma yw Gwenda Davies, Bod Iwan, 21 Lôn y Wennol, Llanfairpwll, Ynys Môn LL61 5JX. Da iawn chi.


MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com